

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

POLISI GORFODI CORFFORAETHOL



HYDREF 2018

CYMERADWYWYD Y POLISI AR 16.10.18

Cyflwyniad

Mae Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf 2016-20 yn esbonio'r ffordd ymlaen i'r Cyngor ar adeg pan mae llywodraeth leol yn mynd trwy newid enfawr ledled y wlad. Ein gweledigaeth yw Bwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchelgeisiol, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth:

1. Economi: Adeiladu economi gref
2. Pobl: Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb
3. Lleoedd: Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

Mae gweledigaeth, blaenoriaethau ac egwyddorion y Cynllun Corfforaethol yn cefnogi'r saith Nod Llesiant sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y Cyngor yn cynnal, llywio a gwella'i wasanaethau ar gyfer ein cymunedau lleol ac ar y cyd â nhw. Fe wnawn ni hyn drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid. Er lles ein cymunedau lletach, byddwn ni'n annog pobl i gydymffurfio â'r gyfraith. Pan fydd hyn yn cael ei danseilio, a bod gan y Cyngor bwerau cyfreithiol i amddiffyn ein cymunedau rhag niwed, byddwn ni'n defnyddio'r rhain. *Gorfodi* yw'r enw ar yr arfer o ddefnyddio'r pwerau yma. Mae sawl ffordd o orfodi, er enghraifft, mae hawl gyda ni i gyflwyno hysbysiad neu rybudd i rywun. Math o orchymyn yw hwn sy'n dweud wrth rywun am wneud rhywbeth yn benodol. Ar y llaw arall, mae hawl gyda ni i 'erlyn', neu fynd â phobl i'r llys am gyflawni trosedd – a allai olygu dirwy neu garchar. Gallai'r llys wahardd y bobl yma rhag cyflawni rhyw weithgaredd penodol hefyd.

Diben y Polisi Gorfodi Corfforaethol yma yw sefydlu dull gorfodi unffurf ym mhob rhan o'r Cyngor heb roi gormod o faich ar fusnesau, sefydliadau a defnyddwyr lleol, neu'r cyhoedd. Cafodd y polisi'i ddatblygu yn unol ag egwyddorion gorfodi da'r Concordat Gorfodi yn sail iddo, yn ogystal ag egwyddorion y Cod i Reoleiddwyr. Wrth wneud hyn rydyn ni am nodi'n glir beth yw dull y Cyngor wrth orfodi'i bwerau. Bydd uwch swyddogion yn adolygu'r polisi yn rheolaidd a bydd unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol yn cael eu cynnig yng ngoleuni'r arfer gorau a newidiadau i ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cymeradwyo gan Gabinet y Cyngor cyn eu gweithredu.

Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth ar rychwant eang o faterion. Wrth fabwysiadu'r polisi yma, mae'r Cyngor yn bwriadu cymhwyso'i bwerau cyfreithiol yn gyson ac yn deg, beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Mae gweithrediadau gorfodi'r Cyngor yn effeithio ar bob un o'r themâu yma. Mae'r rhain yn amrywio o weithredu yn erbyn tramgwyddwyr i sicrhau bod gan bobl gyfle i gael gwybodaeth am eu hawliau cyfreithiol. Mae gorfodi effeithiol yn bwysig iawn ac yn helpu'r Cyngor i gyflawni'i amcanion. Os edrychwch chi ar Atodiad 1, fe welwch chi gyfeiriadur o Gyfadrannau ac Uwchadrannau'r Cyngor sy'n defnyddio pwerau gorfodi. Bydd hyn yn dangos i chi pa mor eang yw rychwant ein gweithrediadau gorfodi ar hyn o bryd. Wrth i'r Cyngor ddyrannu adnoddau i'r swyddogaethau perthnasol,

byddwn ni'n rhoi sylw ac ystyriaeth i'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Dyna pam mae'r Cyngor yn gweithio i wella ei ddull gorfodi. Byddwn ni'n cyd-drefnu'n hadnoddau'n well, gwella ein trefniadau cydweithio, a chreu partneriaethau gyda budd-ddeiliaid eraill, megis yr Heddlu. Weithiau, mae'r gyfraith yn caniatáu i'n gwahanol wasanaethau gyfnewid gwybodaeth, neu i ni fel Cyngor gyfnewid gwybodaeth gyda'n partneriaid, os bydd hynny'n helpu i ganfod ac atal troseddu ac amddiffyn diogelwch y cyhoedd.

Bydd y Cyngor yn gweithredu'i swyddogaethau gorfodi i gyflawni'r nod a'r amcanion a ganlyn:

Nod y Polisi Gorfodi

Nodi ymagwedd y Cyngor tuag at orfodi yn glir, cefnogi cyflwyno Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf a'r cynlluniau cysylltiedig sy'n ymwneud â lles y sawl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor am weithio gyda'r rheiny y mae'n eu rheoleiddio. Bydd yn ceisio hybu cydymffurfio drwy nifer o wahanol ddulliau. Byddwn ni'n rhoi cymorth a chyngor i helpu pobl, cyrff, sefydliadau, a mudiadau i gydymffurfio, er enghraifft. Os bydd angen amddiffyn pobl leol sy'n fwy agored i niwed, byddwn ni'n sicrhau gwahardd gweithrediadau niweidiol neu erlyniad. Rydyn ni wedi ymrwymo i osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen ac i benderfynu a all deilliannau tebyg gael eu cyflawni trwy ddulliau llai beichus.

Nod y polisi yw bod yn ganllaw i swyddogion, busnesau, defnyddwyr a'r cyhoedd. Os bydd angen erlyn y rhai sy'n gwneud niwed, fe wnawn ni hynny er lles ein cymunedau lletach ni.

Ar hyn o bryd, mae gan rai o wasanaethau gorfodi'r Cyngor (er enghraifft, cynllunio a datblygu, rheoli sŵn a pharcio, a rheoli bwydydd a bwyd anifeiliaid) eu polisiâu gorfodi eu hunain. Mae'n bosibl y bydd y polisiâu unigol yma'n cynnwys gwybodaeth fanwl iawn parthed pryd a sut y bydd y gwasanaeth hwnnw'n cyflawni math penodol o orfodi. Yn y fath amgylchiadau, fe fydd yn ofynnol o hyd i'r gwasanaeth gydymffurfio â'r cyfarwyddyd yn y Polisi Gorfodi Corfforaethol. Serch hynny, bydd eu polisi gorfodi nhw yn darparu manylion penodol ar gyfer gorfodi'r maes penodol hwnnw o ddeddfwriaeth. Os bydd anghydfod yn codi rhwng polisiâu/canllawiau gorfodi y gwasanaethau unigol a'r Polisi Gorfodi Corfforaethol yma, bydd y Polisi Gorfodi Corfforaethol yn cymryd blaenoriaeth. Mae modd i chi ofyn am gopi o'r polisiâu gorfodi o wasanaeth perthnasol y Cyngor ac maen nhw hefyd ar gael ar wefan Rhondda Cynon Taf.

Amcanion

Sicrhau bod yr holl weithrediadau gorfodi:

1. yn cael eu gweithredu yn unol ag egwyddorion prosesau gorfodi da sydd wedi'u pennu gan y Concordat Gorfodi.

2. yn gyson â'r hawliau confensiwn sydd wedi'u pennu yn Neddf Hawliau Dynol 1988 ar gyfer amddiffyn hawliau'r unigolyn.
3. yn cael eu rheoli mewn ffordd effeithlon.
4. yn cael eu gweithredu'n brydlon a heb oedi dianghenraid.
5. yn cael eu gweithredu'n gyson gan holl wasanaethau'r Cyngor.
6. yn cael eu gweithredu mewn modd teg, annibynnol a thryloyw, gan ystyried pob achos ar ei deilyngdod ei hun.
7. ddim yn cael eu dylanwadu gan liw, tarddiad ethnig, hil, rhyw/rhywioldeb, crefydd, statws priodasol, oed, daliadau gwleidyddol neu iaith o ddewis.
8. ddim yn cael eu dylanwadu gan bwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell, neu gan arferion amhriodol neu anghyfreithlon gan y swyddog.
9. yn cael ei alinio i Gynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf ac i Gynllun Cyflawni pob gwasanaeth unigol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd y Cyngor a'i swyddogion yn cymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i atal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac annog cysylltiadau da rhwng yr holl bartïon, gan drin pawb sy'n gysylltiedig gyda pharch cyfartal wrth ohebu â'r unigolion a'r busnesau hynny ac yn ystod gweithrediadau gorfodi.

Bydd hyn yn cael ei wneud waeth beth yw tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol na chenedligrwydd yr unigolyn, ei statws o ran ailbennu rhywedd, os oes cyfrifoldeb gydag ef am ddibynyddion neu am unrhyw reswm arall nad oes modd ei gyfiawnhau.

Mae'r polisi yma'n ddwyieithog a bydd yn cael ei ddarparu mewn unrhyw iaith neu fformat arall gyda digon o rybudd. Mae swyddogion yn effro i ofynion diwylliannol ac yn eu parchu, a lle bo angen a chyda rhybudd ymlaen llaw, byddan nhw'n cynnig cyfarfodydd addas a gwasanaeth cyfieithu neu ddehongli priodol.

Wrth ymdrin â phobl ifainc neu bobl sy'n agored i niwed, boed hynny oherwydd anawsterau dysgu, salwch corfforol neu feddyliol neu mewn rhyw ffordd arall, bydd ystyriaeth briodol yn cael eu rhoi i'w bregusrwydd ac unrhyw godau ymarfer cyfredol i sicrhau bod y bobl yma'n cael eu trin yn deg.

Egwyddorion Gorfodi Da - Concordat Llywodraeth Leol

Ers cyflwyno Cod Rheoleiddwyr 2013, mae'r Concordat ar Orfodi Da dim ond yn berthnasol yn swyddogol i wasanaethau gorfodi'r Cyngor sydd ddim wedi'u cynnwys yn y Cod Rheoleiddwyr. Serch hynny, er mwyn dangos arfer gorau, bydd holl wasanaethau gorfodi'r Cyngor yn parhau i gydymffurfio ag egwyddorion y Concordat.

Polisi

Mae'r Cyngor wedi llofnodi Concordat Gorfodi Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Leol ar Orfodi Da. Drwy hyn mae'n ymrwymo i bolisiâu a gweithdrefnau gorfodi da. Mae'r ddogfen yma'n ategu'r Concordat drwy nodi datganiad ychwanegol ar bolisi gorfodi'r Cyngor. Dyma egwyddorion y Concordat y byddwn ni'n eu parchu:

Safonau

Byddwn ni'n llunio polisiâu clir sy'n nodi'r lefelau gwasanaeth a chyflawniad y gall y cyhoedd a phobl busnes ddisgwyl eu derbyn. Byddwn ni'n datblygu'r polisiâu yma gan ymgynghori â phartion perthnasol eraill sydd â buddiant, lle bo'n briodol. Byddwn ni'n cyhoeddi'r safonau yma a'n cyflawniad blynyddol o'i gymharu â nhw. Byddwn ni'n trefnu bod y safonau yma ar gael i fusnesau lleol, ac i eraill sy'n cael eu rheoleiddio.

Didwylledd

Byddwn ni'n darparu gwybodaeth a chynghor mewn iaith blaen am y rheolau sy'n berthnasol, ac yn lledaenu'r wybodaeth a'r cynghor yma mor eang ag y bo modd. Byddwn ni'n agored ynghylch ein ffordd o fynd at ein gwaith. Bydd hyn yn cynnwys rhoi manylion y taliadau rydyn ni'n eu codi, ac ymgynghori â busnesau, cyrff, sefydliadau, a mudiadau gwirfoddol, elusennau, a chynrychiolwyr ar ran defnyddwyr a'r gweithlu lle bo'n briodol. Byddwn ni'n trafod materion cyffredinol, methiannau penodol i gydymffurfio, neu broblemau, gydag unrhyw un sy'n wynebu anawsterau mewn perthynas â deddfwriaeth y mae'r gwasanaeth yn ei gorfodi, drwy ymateb i ymholiadau, a chan ymweld ag unigolion os gofynnau nhw am hynny. Byddwn ni'n egluro'n glir natur unrhyw ddiffyg cydymffurfio, y cynghor rydyn ni'n ei roi, y camau sydd eu hangen a pham mae'r penderfyniadau yn cael eu gwneud.

Mewn amgylchiadau penodol fe fyddwn ni'n ceisio gwella gwybodaeth a lefelau cydymffurfio drwy roi cyhoeddusrwydd i arferion busnes anghyfreithlon neu i weithgareddau troseddol. Am hynny, byddwn ni efallai yn cyhoeddi canlyniadau achosion llys penodol ar ein gwefan a thrwy ddatganiadau i'r wasg, lle bo hyn yn briodol. Byddwn ni'n dilyn unrhyw ganllawiau perthnasol, megis y rheiny gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, wrth benderfynu cyhoeddi gwybodaeth am ganlyniadau dedfrydu.

Byddwn ni'n cyflawni ein dyletswyddau gorfodi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sy'n cael eu gosod ar y Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau yn Gymraeg a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Cyngor. Byddwn ni'n darparu gwasanaeth dehongli ar gyfer y rheiny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, os ydyn nhw'n gofyn am hynny.

Cymwynasgarwch

Rydyn ni o'r farn mai 'gwell atal na chywiro', a dyna pam byddwn ni'n bwrw ati'n weithgar ar y cyd â busnesau i roi cynghor a chymorth iddyn nhw ar sut i gydymffurfio

â'r gyfraith. Byddwn ni'n rhoi sylw arbennig i fusnesau bach a chanolig eu maint. Byddwn ni'n rhoi gwasanaeth cwrtais ac effeithlon, a bydd ein staff yn rhoi'u henwau wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Byddwn ni'n rhoi dolen gyswllt a rhif ffôn ar gyfer ymwneud â ni ymhellach. Gwnawn ein gorau i ddenu busnesau i ofyn i ni am gyngor a gwybodaeth. Yn rhan o Strategaeth Ddigidol y Cyngor, mae llawer o wasanaethau a gwybodaeth ar gael ar-lein i sicrhau gwasanaeth prydlon a hygyrch y tu allan i oriau gwaith arferol. Byddwn ni'n delio'n effeithlon ac yn brydlon â phob cais, boed am gymeradwyo sefydliad, cofrestriadau, ymgynghoriadau cynllunio, neu beth bynnag a fo. Lle bynnag bo'n ymarferol fe fyddwn ni'n sicrhau bod ein gwasanaethau gorfodi'n cydweithio'n drefnus. Bydd hynny'n fodd i osgoi baglu ar draws ei gilydd a pheri oedi.

Cymesuredd

Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerwn ni'n gymesur â'r risgiau i'r cyhoedd, eiddo a'r amgylchedd. Fe wnawn ni sicrhau bod pob gweithred a fynnw'n ni'n gymesur â'r risgiau, er mwyn cadw costau cydymffurfio i fusnesau i'r lleiaf posibl. A ninnau'n ystyried cymryd camau, byddwn ni'n ystyried amgylchiadau'r achos ac agwedd y gweithredydd, cyn belled ag y mae'r gyfraith yn caniatáu. Wrth gyflawni ein gweithrediadau byddwn ni'n ystyried y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Lle bo'n ymarferol, byddwn ni'n arbennig o ofalus wrth i ni weithio gyda busnesau bach a gyda chyrff, sefydliadau, a mudiadau gwirfoddol a chymunedol fel y gallan nhw fodloni'u rhwymedigaethau cyfreithiol heb gostau diangen.

A ninnau'n delio ag aelodau unigol o'r cyhoedd, unwaith eto fe fyddwn ni'n gweithredu'r cysyniad cymesuredd i'r graddau y mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu. Fe ymdrechwn ni, lle bynnag y bo modd, i nodi pwy yw'r unigolion sy'n ymwneud â phob achos ac i gysylltu â nhw. Bydd y camau a gymerwn ni'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng budd yr achwynydd neu'r cyhoedd, a'r gost neu'r anghyfleustra i'r rheiny sy'n ymwneud â'r achos.

Cysondeb

Byddwn ni'n cyflawni ein dyletswyddau mewn modd teg a chyson. Tra bo disgwyl i swyddogion archwilio ddefnyddio'u disgresiwn mewn achosion unigol, fe fydd gyda ni drefniadau yn eu lle i hyrwyddo cysondeb a fydd yn cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer cysylltu ag awdurdodau a chyrff gorfodi eraill. Fe wnawn ni hyn drwy ddatblygu a hyfforddi staff a thrwy ddefnyddio gweithdrefnau ysgrifenedig os yw hynny'n briodol.

Cwynion am y gwasanaeth

Byddwn ni'n ymdrin â chwynion yn unol â Gweithdrefnau Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno'r Cyngor. Caiff manylion y Gweithdrefnau Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno'r Cyngor eu rhoi i'r sawl (unigolion neu fusnesau) sy'n gofyn amdany'n nhw ac maen nhw ar gael ar-lein hefyd.

Byddwn ni'n darparu gweithdrefnau effeithiol ac amserol ac yn hysbysu'r cyhoedd amdany'n nhw. Bydd y gweithdrefnau yma'n agored ac yn rhwydd i fusnesau, y

cyhoedd, gweithwyr, a grwpiau defnyddwyr eu defnyddio. Os na fydd modd datrys rhyw anghydfod, byddwn ni'n esbonio unrhyw hawl i gwyno neu apelio. Fe rown ni wybod am holl fanylion y broses, a faint o amser mae hi'n debygol o'i gymryd.

Os oes gyda chi unrhyw sylwadau ynghylch y broses, neu eisiau cwyno am y modd y caiff ei gweithredu, dylech chi roi gwybod i uwch swyddog yn y gwasanaeth y mae'r swyddog yn gweithio iddo.

Gweithdrefnau

Bydd gan ein holl swyddogion sy'n cyflawni gwaith gorfodi ddogfennau priodol i ddangos fod uwch swyddog priodol wedi'u hawdurdodi i wneud hynny. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun Cyffredinol ar gyfer Dirprwyo dan Gyfansoddiad y Cyngor.

Mewn amgylchiadau lle rydyn ni'n peidio â chymryd camau ffurfiol, byddwn ni'n rhoi cyngor clir sydd mewn iaith blaen. Bydd cadarnhad ysgrifenedig yn cael ei roi os gofynnwch chi amdano. Os bydd angen cyflawni gwaith adfer, byddwn ni'n esbonio pam ac yn rhoi gwybod faint o amser fydd gyda chi i wneud hyn. Fe wahaniaethwn yn glir rhwng gofynion cyfreithiol ar y naill law, ac arferion gorau, codau ymarfer, arweiniad, a chynghorion eraill sy'n cael eu hawgrymu.

Bydd swyddogion yn cael eu hannog i hyrwyddo cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, a hynny trwy godi ymwybyddiaeth o safonau perthnasol a gofynion cyfreithiol, trwy gyfrwng datganiadau i'r wasg, dosbarthu taflenni a rhoi gwybodaeth ar wefan y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyswllt wyneb yn wyneb a phartneriaethau busnes a chymuned.

Cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol, bydd swyddogion yn rhoi cyfle i drafod amgylchiadau'r achos ac, os yw'n bosibl, i ddatrys pwyntiau gwahaniaeth cyn penderfynu ar y dull gweithredu gorau, oni bai fod angen gweithredu ar unwaith (er enghraifft, er lles iechyd a diogelwch neu amddiffyn yr amgylchedd neu i atal tystiolaeth rhag cael ei dinistrio neu lle mae hyn yn debygol o drechu diben y camau gorfodi arfaethedig). Serch hynny, os ydyn ni'n ystyried camau ffurfiol, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth yma trwy gyfweiliad ffurfiol.

Pan fydd angen cymryd camau ar unwaith, bydd rheswm dros hyn yn cael ei roi ar yr adeg honno. Bydd cadarnhad ysgrifenedig yn cael ei roi o fewn 5 niwrnod gwaith yn y rhan fwyaf o achosion ac, ym mhob achos, o fewn 10 niwrnod gwaith.

Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd busnesau ac unigolion yn dymuno herio penderfyniad rheoleiddio sydd wedi'i wneud gan swyddog gorfodi. Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn cynnwys mecanwaith statudol ar gyfer apelio, er enghraifft, cyflwyno apêl i'r llys ynadon mewn perthynas â rhai hysbysiadau statudol. Mewn achosion lle mae hawl i apelio yn erbyn gweithredu ffurfiol, bydd gwybodaeth am y

mecanwaith apelio yn cael ei nodi'n glir yn ysgrifenedig ac yn cael ei darparu ar adeg cymryd y camau, a, lle bynnag y bo'n bosibl, bydd hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno.

Os nad oes unrhyw feganweithiau perthnasol yn y broses ddeddfwriaethol sy'n cwmpasu'r camau penodol sy'n cael eu cymryd gan y swyddog, bydd rhai gwasanaethau yn gweithredu eu gweithdrefnau apelio eu hunain. Bydd manylion am weithdrefnau apelio o'r fath, a sut i'w cyrchu, yn cael eu darparu o ofyn amdany'n nhw. Bwriad gweithdrefnau apelio o'r fath yw caniatáu i'r bobl sy'n cael eu heffeithio herio'r cyngor sydd wedi'i roi iddyn nhw neu'r camau gorfodi sydd wedi'u cymryd gan y swyddog ymchwilio. Dydy'r gweithdrefnau apelio ddim yn caniatáu i fusnes neu unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad i'w erlyn. Nid eu bwriad chwaith yw cynnig cyfle i dderbyn rhybudd syml oherwydd bod gweithrediadau Llysoedd y DU yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth Hawliau Dynol.

Cynnal Ymchwiliadau

Pan fydd swyddogion yn ymchwilio i achosion o dorri deddfwriaeth, gan ddibynnu ar ofynion y deddfwriaeth, bydd modd iddyn nhw ddefnyddio unrhyw bwerau statudol sydd ar gael iddyn nhw o dan y deddf benodol neu'r rheoliadau. Gall y pwerau yma gynnwys mynd i mewn i adeiladau i archwilio nwyddau, gwasanaethau, gweithdrefnau, cyfleusterau neu ddogfennau, i gymryd samplau, i wneud profion prynu, a mynd ag eitemau i ffwrdd. Bydd swyddogion yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer cysylltiedig o dan y deddfwriaeth benodol. Yn aml bydd y deddfwriaeth yn cynnwys trosedd sy'n cael ei chyflawni gan unrhyw berson sy'n rhwystro swyddog awdurdodedig neu sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad rhesymol sy'n cael ei wneud gan y swyddog. Pan fyddan nhw'n gweithredu pwerau gorfodi, bydd swyddogion hefyd yn ystyried Cod Ymarfer Pwerau Mynediad 2014 y Swyddfa Gartref pan fydd y cod yn berthnasol i'r pŵer penodol.

Os oes dioddefwr sydd wedi'i effeithio'n uniongyrchol gan drosedd, byddwn ni'n annog y person i wneud 'Datganiad Personol y Dioddefwr', sef datganiad sy'n cael ei ysgrifennu yng ngeiriau'r unigolyn ei hun i esbonio sut mae'r drosedd wedi effeithio arno. Gall egluro'r effaith a gafodd y drosedd ar ei fywyd yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae gan y dioddefwr hawl i ddweud a hoffai i'r datganiad gael ei ddarllen ar goedd yn y llys os yw'r un dan amheuaeth yn euog. Fe gaiff y dioddefwr ddewis darllen ei ddatganiad ar goedd ei hun neu ofyn i rywun arall wneud hyn ar ei ran. Byddwn ni'n cydymffurfio ag unrhyw gais o'r fath.

Yn ogystal â defnyddio pwerau o'r fath, efallai y bydd angen i swyddogion siarad ag unigolion a, mewn achos mwy difrifol, cyfweld â phobl dan rybudd. Bydd unrhyw gyfweiliad dan rybudd o'r fath yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Yn yr achosion mwyaf difrifol gall swyddogion wneud trefniadau i'r heddlu arestio diffynnydd posibl i hwyluso'r ymchwiliad. Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn darparu terfyn amser statudol o ddyddiad y drosedd neu weithiau o'r dyddiad y cafodd ei ddarganfod. Dan yr amgylchiadau yma, chaiff y Cyngor ddim cychwyn achos cyfreithiol ar ôl i derfyn amser o'r fath ddod i ben.

Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r mater dan sylw, bydd swyddogion yn cynnal eu hymchwiliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol ac yn unol ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer cysylltiedig perthnasol, i'r graddau y maen nhw'n ymwneud â'r Cyngor:

- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;
- Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000;
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001;
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012;
- Deddf Pwerau Ymchwilio 2016.

Mae'r deddfau yma a'r canllawiau cysylltiedig yn rheoli sut mae tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i defnyddio, ac yn darparu mathau amrywiol o drefnau diogelu ar gyfer unigolion a diffynyddion posibl.

Bydd y swyddogion sy'n cynnal yr ymchwiliadau yn gwneud hynny dan reolaeth uwch swyddog.

Mae'n ofynnol i swyddogion ymddwyn yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru'r Cyngor a Deddf Llwgrwobrwyo 2010.

Egwyddorion Rheoleiddio Da a Chod y Rheoleiddwyr

Mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i Egwyddorion Rheoleiddio Da wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio sydd wedi'u pennu gan orchymyn sydd wedi'i wneud o dan y Ddeddf. (Mae'r swyddogaethau yma'n ymwneud yn bennaf â'r deddfwriaeth sy'n cael ei gorfodi gan staff lechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu a Safonau Masnach.)

Mae'r egwyddorion yma'n golygu y byddwn ni'n arfer ein swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sydd:

- 1) yn gymesur - fel bod gweithrediadau'n adlewyrchu lefel y risg i'r cyhoedd a bod y camau gorfodi sy'n cael eu cymryd yn ymwneud â difrifoldeb y drosedd;
- 2) yn atebol - fel bod gweithrediadau'n agored i graffu gan y cyhoedd, gyda pholisïau clir a hygyrch, a gweithdrefnau cwyno teg ac effeithlon;
- 3) yn gyson - fel bod y cyngor i'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio yn gadarn ac yn ddibynadwy ac yn parchu'r cyngor sy'n cael ei ddarparu gan eraill a, lle mae amgylchiadau'n debyg, yn ceisio gweithredu mewn ffordd debyg i awdurdodau lleol eraill;
- 4) yn dryloyw - fel bod y rhai sy'n cael eu rheoleiddio yn gallu deall yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddyn nhw a'r hyn y gallan nhw ei ddisgwyl yn ôl;
- 5) wedi'i dargedu - fel bod adnoddau'n canolbwyntio ar fentrau a gweithrediadau risg uwch, gan adlewyrchu angen lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Ar gyfer y meysydd deddfwriaeth sy'n cael eu gorfodi gan lechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu a Safonau Masnach, byddwn ni'n dilyn egwyddorion Cod y Rheoleiddwyr a gafodd ei gyhoeddi gan y Llywodraeth yn 2013, sy'n cynnwys y canlynol:

Cefnogi busnesau rheoledig i gydymffurfio a thyfu

Byddwn ni'n ceisio osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen ar fusnesau trwy ein gweithrediadau rheoleiddio a byddwn ni'n asesu a fyddai modd cyflawni'r canlyniadau priodol drwy dulliau llai beichus. Dim ond os bydd y buddion yn cyfiawnhau'r costau ac yn golygu'r baich lleiaf sy'n gydnaws â chyflawni'r amcanion y byddwn ni'n mabwysiadu dull penodol. Bydd ein polisïau a'n harferion yn annog ac yn hyrwyddo cydymffurfio ond, wrth wneud hynny, byddan nhw'n ceisio lleihau effaith economaidd negyddol ein gweithrediadau a'r gost o gydymffurfio. Byddwn ni'n dewis ymagweddau cymesur at y busnesau rydyn ni'n eu rheoleiddio, yn seiliedig ar ffactorau perthnasol fel maint a gallu'r busnes a natur eu gweithrediadau. Byddwn ni'n sicrhau bod gan ein swyddogion yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi'r rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio ac i'w galluogi i ddewis dulliau cymesur ac effeithiol.

Ymgysylltu â'r rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio a chlywed eu barn

Wrth ymateb i ddiffyg cydymffurfio, byddwn ni'n egluro'n glir yr hyn sydd ddim yn cydymffurfio, y cyngor sy'n cael ei roi, y camau gweithredu sydd eu hangen neu'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud a byddwn ni'n rhoi'r rhesymau dros wneud hynny.

Wrth ystyried camau gorfodi mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfio, byddwn ni, lle bo'n briodol, yn rhoi cyfle i drafod y cyngor, y gofynion neu'r penderfyniad ac ystyried y ddeialog yma er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu mewn ffordd gymesur a chyson. Serch hynny, fydd hyn ddim yn berthnasol lle y gallwn ni ddangos bod angen cymryd camau gorfodi ar unwaith i atal neu ymateb i dor-amod difrifol neu lle mae darparu cyfle o'r fath yn debygol o drechu diben y camau gorfodi arfaethedig. Byddwn ni'n darparu gweithdrefn apelio ddiuedd ar gyfer apêl yn erbyn penderfyniad rheoleiddiol neu fethiant i weithredu yn unol â'r cod a byddwn ni'n rhoi esboniad ysgrifenedig o'r hawl i apelio neu gyflwyno sylwadau. Yn ogystal â'r weithdrefn apelio, byddwn ni'n sicrhau bod modd cwyno am ymddygiad ein swyddogion drwy weithdrefn rhoi sylwadau, canmol a chwyno'r Cyngor. Byddwn ni'n ystyried effaith ein polisiau a'n safonau gwasanaeth ar fusnesau, ac felly'n gwahodd barn busnesau, dinasyddion ac eraill ar ein polisiau a'n safonau gwasanaeth.

Seilio ein gweithrediadau rheoleiddio ar risg

Byddwn ni'n mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu'r risgiau sydd â blaenoriaeth i sicrhau bod dyraniad ein hymdrechion a'n hadnoddau yn cael eu targedu lle bydden nhw'n fwyaf effeithiol. Bydd asesiadau risg o'r fath yn llywio ein hymagwedd at weithrediadau rheoleiddio gan gynnwys rhaglenni arolygu, cyngor busnes a chosbau gorfodi. Byddwn ni'n defnyddio unrhyw gynlluniau methodoleg asesu risg yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu dyfeisio a'u cymeradwyo gan adrannau perthnasol y Llywodraeth ar gyfer ein gwasanaethau penodol, er mwyn penderfynu pa mor aml y bydd archwiliadau ac ymweliadau yn cael eu cynnal i wirio cydymffurfiaeth. Pan fydd y cynllun methodoleg asesu risg yn caniatáu defnyddio 'cydnabyddiaeth a enillir', wrth gynnal asesiadau risg, byddwn ni'n ystyried canlyniadau unrhyw ymweliadau sy'n cael eu cynnal gan archwilyr allanol o dan gynllun gwirio allanol; bydd archwiliadau ac ymyriadau yn cael eu cynnal yn llai aml os yw'r cyfarwyddyd yn gofyn am hynny.

Byddwn ni'n sicrhau y bydd archwiliadau ac ymweliadau eraill i wirio cydymffurfiaeth dim ond yn digwydd yn unol â methodoleg asesu risg, ac eithrio os y busnesau sy'n gofyn am yr ymweliadau, lle rydyn ni'n ymweld â busnesau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cywiro anghydymffurfiaeth neu os ydyn ni'n ymateb i wybodaeth berthnasol neu gwynion. Dan yr amgylchiadau hynny bydd modd i ni gynnal ymweliadau cydymffurfio yn fwy aml na'r hyn sydd wedi'i nodi yn y cynlluniau methodoleg asesu risg. Yn ogystal â hynny, fe allen ni gynnal archwiliadau ar hap.

Pan fyddwn ni'n ailymweld i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi cael eu cywiro, byddwn ni'n disgwyl bod y diffygion wedi cael eu cywiro a bod modd i'r busnes ddangos bod ei systemau wedi gwella er mwyn atal achosion tebyg o ddiffyg cydymffurfio rhag digwydd yn y dyfodol. Os bydd angen amser ychwanegol ar fusnes i gywiro achos o ddiffyg cydymffurfio, byddwn ni'n ei annog i drafod hyn gyda'r swyddog dan sylw. Os yw'r achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi parhau, byddwn ni'n ystyried cymryd camau gorfodi mwy ffurfiol.

Byddwn ni'n canolbwyntio ein hymdrechion archwilio yn bennaf ar fusnesau lle mae ein hasesiad risg ni yn dangos y byddai achos o dorri rheolau cydymffurfio yn peri risg difrifol i ganlyniad rheoliadol, a bod tebygolrwydd y byddai busnesau'n peidio â

chydymffurfio. Byddwn ni'n rhoi adborth i'r busnesau am ganlyniadau ein hymweliadau, gan gynnwys adborth ynglŷn â'r agweddau cadarnhaol ar yr ymweliadau, os bydd yn briodol. Byddwn ni'n annog ac yn atgyfnerthu arfer da. Wrth i ni gynnal yr ymweliadau yma, byddwn ni'n ystyried unrhyw gynlluniau arolygu a chyngor sicr sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer busnesau sydd mewn Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol.

Os yw'r busnes sy'n destun ymchwiliad mewn Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol gofrestredig o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau, byddwn ni'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf pan fyddwn ni'n ystyried cymryd camau gorfodi yn ei erbyn. Yn benodol, byddwn ni'n ymgynghori â'r Awdurdod Sylfaenol ac yn ystyried unrhyw gyngor sicr y maen nhw wedi'i ddarparu, yn eu hysbysu o unrhyw gamau gorfodi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r weithdrefn statudol os nad yw'r Awdurdod Sylfaenol yn cydsynio i ni gymryd y camau yma.

Ar bob cam o'r broses benderfynu, byddwn ni'n dewis y math mwyaf priodol o ymyrraeth neu'r ffordd fwyaf priodol o weithio gyda busnesau. Mae hyn yn cynnwys pan fyddwn ni'n targedu gwiriadau ar gydymffurfiaeth neu gymryd camau gorfodi. Os bydd cyflawniad y busnes yn cael ei ystyried yn fwy o risg neu'n llai o risg na busnesau tebyg eraill, byddwn ni'n newid ei sgôr risg pan fydd hyn yn cael ei ganiatáu trwy'r fethodoleg asesu risg berthnasol. Byddwn ni'n cydnabod cofnod cydymffurfio'r busnesau, gan gynnwys unrhyw ddata perthnasol ar eu cydymffurfiaeth neu dystiolaeth bod y busnes yn destun unrhyw wiriad allanol perthnasol, fel y gallwn ni ystyried defnyddio dulliau cydnabyddiaeth a enillir. Byddwn ni'n adolygu effeithiolrwydd ein gweithrediadau rheoleiddio wrth gyflawni'r canlyniadau cywir a byddwn ni'n gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â hynny.

Rhannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth a risg

Os yw'n bosibl, ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, byddwn ni'n casglu gwybodaeth gan fusnesau unwaith ac yn ceisio ei defnyddio sawl gwaith. Wrth benderfynu pa ddata sydd eu hangen arnon ni gan fusnesau, byddwn ni'n ymdrechu i leihau costau busnes, lle bo hynny'n bosibl, trwy amrywio ceisiadau am ddata yn ôl risg, cyfyngu ar y gwaith casglu i fusnesau neu sectorau penodol, casglu data yn llai aml, cael data o ffynonellau eraill, caniatáu cyflwyno electronig a gofyn am y data sydd wedi'u cyfiawnhau gan yr asesiad risg yn unig. Er mwyn helpu i dargedu ein hadnoddau a'n gweithrediadau ac i leihau dyblygu, byddwn ni'n rhannu gwybodaeth am fusnesau gyda rheoleiddwyr eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hyn.

Sicrhau bod gwybodaeth, arweiniad a chyngor ar gael i fusnesau

Byddwn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyffredinol er mwyn ei gwneud hi'n haws i fusnesau ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol, a'u bodloni nhw, a byddwn ni'n darparu hynny mewn ffordd glir a chryno, gan ddefnyddio iaith syml. Byddwn ni'n ystyried defnyddio unrhyw ganllawiau cenedlaethol perthnasol, os bydd hynny'n bosibl. Wrth ddarparu cyngor ac arweiniad, byddwn ni'n gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac arferion gorau awgrymedig a byddwn ni'n ceisio peidio â gosod unrhyw feichiau diangen. Wrth ymateb i geisiadau am gyngor byddwn ni'n darparu'r cyngor angenrheidiol i gefnogi cydymffurfiaeth. Wrth wneud hyn, byddwn ni'n parchu

cyngor perthnasol fydd wedi'i ddarparu gan asiantaethau gorfodi eraill. Os oes unrhyw anghytundeb â rheoleiddiwr arall ynghylch y cyngor sydd wedi'i ddarparu, byddwn ni'n trafod hyn er mwyn dod i gytundeb â'r rheoleiddiwr arall. Bydd modd i fusnesau ofyn i ni am gyngor ar achosion o beidio â chydymffurfio, heb i hynny sbarduno camau gorfodi yn uniongyrchol, ar yr amod bod y busnes yn fodlon cywiro'r achos o ddiffyg cydymffurfio. Bydd y Cyngor yn cadw at y cyngor y bydd wedi'i ddarparu fel y bydd modd dibynnu arno, a byddwn ni'n rhoi gwybod am unrhyw ddiweddariad i'r cyngor pan fydd hynny'n briodol.

Bydd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn cael eu darparu'n ddwyieithog lle nad yw dewis iaith yn hysbys, neu yn Gymraeg lle mae'r busnes yn nodi hyn fel ei iaith o ddewis. Fydd cyfathrebu â ni yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

Os yw busnes yn dymuno ymrwymo i drefniad Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol ffurfiol gyda ni o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008, neu i drefniad Awdurdod Cartref mwy anffurfiol, fe wnawn ni bob ymdrech i gyrraedd cytundeb boddhaol.

Sicrhau bod ein dull yn dryloyw

Bydd meysydd gwasanaeth unigol yn cyhoeddi set o safonau gwasanaeth clir ynghylch:

- sut rydyn ni'n cyfathrebu â'r rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio a sut bydd modd cysylltu â ni;
- ein dull o ddarparu gwybodaeth, canllawiau a chyngor;
- ein dull o wirio cydymffurfiaeth a phrotocolau ar gyfer gwneud hyn;
- y fframweithiau asesu risg rydyn ni'n eu defnyddio i dargedu ein gwiriadau;
- ein polisi gorfodi;
- ein ffioedd a chostau;
- ein gweithdrefn cyflwyno apeliadau;
- ein gweithdrefn gwyno.

Bydd y safonau gwasanaeth yma ar gael ar wefan y Cyngor a byddan nhw'n cael eu darparu ar gais.

Byddwn ni'n cyhoeddi'r canlynol yn rheolaidd:

- Adborth gan y rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio, megis arolygon boddhad;
- Data am gwynion sydd wedi'u cyflwyno am ein gweithrediadau rheoleiddio;
- Data am apeliadau sydd wedi'u cyflwyno yn erbyn ein penderfyniadau;

Cymhwysedd y Cod

Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 yn nodi bod rhaid i'r rheoleiddiwr roi sylw i'r Cod wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau gweithredol sy'n llywio eu gweithrediadau rheoleiddio. Serch hynny, dydy hi ddim yn datgan bod y Cod yn berthnasol yn uniongyrchol i waith swyddog wrth gynnal ymchwiliadau a gweithrediadau gorfodi mewn achosion unigol, ond rydyn ni'n disgwyl i'n swyddogion

weithredu yn unol â'n polisi cyffredinol neu ganllawiau ar archwiliadau, ymchwiliadau a gweithrediadau gorfodi.

Mae dyletswydd weithredol ar yr awdurdod i ystyried y Cod, felly mae angen i ni gydymffurfio â'i ddarpariaethau neu allu esbonio pam rydyn ni wedi dewis cymryd camau gwahanol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn ni'n dod i'r casgliad bod darpariaeth o'r Cod naill ai'n amherthnasol neu'n cael ei gorbwyso gan ystyriaeth berthnasol arall ac felly fyddwn ni ddim yn dilyn y ddarpariaeth honno. Serch hynny, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth y Cod yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol. Byddwn ni'n cofnodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto.

Dylid nodi hefyd bod ein dyletswydd i ystyried y Cod yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad cyfreithiol arall sy'n effeithio ar sut rydyn ni'n arfer ein swyddogaethau rheoleiddio.

Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys mewn manau eraill yn y ddogfen yma i ymdrin â materion eraill sy'n ymwneud â'r pwyntiau uchod yn y Cod Rheoleiddwyr.

Opsiynau Gorfodi

Mae nifer o opsiynau gorfodi ar gael i'r Cyngor. Caiff swyddogion eu hawdurdodi i orfodi deddfwriaeth yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Cyffredinol o dan Gyfansoddiad y Cyngor. Bydd yr opsiwn priodol yn cael ei ddewis yn dilyn ystyriaeth ofalus o amgylchiadau pob achos unigol. Bydd amgylchiadau penodol yr achos yn dylanwadu ar gamau gweithredu'r Cyngor ac mae hyn yn debygol o gynnwys agwedd y busnes neu'r person.

Bydd ein staff gorfodi yn dehongli ac yn cymhwyso gofynion cyfreithiol a pholisïau gorfodi yn gyson ac yn deg. Byddwn ni'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi'u gosod gan y ddeddfwriaeth rydyn ni'n gweithredu yn unol â hi. Er mwyn helpu i sicrhau cysondeb byddwn ni'n defnyddio unrhyw godau ymarfer perthnasol neu ganllawiau cenedlaethol sy'n cael eu darparu mewn perthynas â gofynion cyfreithiol.

Bydd ein camau gorfodi

- yn anelu at newid ymddygiad y troseddwr;
- yn anelu at ddileu unrhyw elw neu fudd ariannol o beidio â chydymffurfio;
- yn ystyried yr hyn sy'n briodol ar gyfer y troseddwr a'r mater rheoleiddio penodol;
- yn gymesur â natur y drosedd a'r niwed sydd wedi'i achosi;
- yn anelu at adfer y niwed sy'n cael ei achosi yn sgil diffyg cydymffurfio rheoleiddiol, lle bo'n briodol;
- yn anelu at atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol.

Camau a Chyngor Anffurfiol

Mewn amgylchiadau lle mae mân doriadau wedi'u nodi, efallai na fydd cymryd camau ffurfiol yn briodol. Efallai nad oes unrhyw risg sylweddol ac efallai ei bod hi'n ymddangos bod y drosedd wedi'i chyflawni drwy gamgymeriad neu ar ddamwain ac o

hanes blaenorol yr unigolyn neu'r busnes, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd gweithredu anffurfiol yn cyflawni cydymffurfio. Felly efallai na fydd gweithredu ffurfiol er budd y cyhoedd. Gall gweithredu anffurfiol gynnwys rhybudd llafar neu ysgrifenedig. Bydd y penderfyniad i wneud hynny yn ôl disgresiwn y swyddog ymchwilio.

Byddwn ni'n nodi'n glir unrhyw achosion o dorri'r gyfraith ac yn rhoi cyngor ar sut i'w cywiro. Bydd yr amser sy'n cael ei ganiatáu ar gyfer cywiro yn rhesymol ac yn ystyried difrifoldeb y tramgwydd. Weithiau byddwn ni'n rhoi cyngor ar arfer da, ond byddwn ni'n gwahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae rhaid ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith ac arfer da o'r fath. Bydd unrhyw gyngor yn cael ei roi mewn ffordd glir ac mewn iaith blaen. Os byddwn ni'n rhoi cyngor i fusnes neu unigolyn, byddwn ni'n parchu'r cyngor hwnnw. Yn ogystal â hynny, byddwn ni'n parchu cyngor perthnasol fydd wedi'i ddarparu gan asiantaethau gorfodi a rheoleiddwyr eraill. Ar ôl i'r cyfnod amser sydd wedi'i ganiatáu ar gyfer gweithredu unrhyw gyngor o'r fath ddod i ben, byddwn ni'n gwirio'r sefyllfa a sicrhau bod y busnes neu'r unigolyn wedi cydymffurfio. Gall methu â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol sydd wedi'u nodi arwain at ddwysáu'r camau gorfodi.

Rydyn ni'n cydnabod, lle mae busnes wedi ymrwymo i Bartneriaeth Awdurdod Sylfaenol, y gall yr awdurdod sylfaenol ddarparu cyngor a chefnogaeth sicr ynglŷn â deddfwriaeth benodol a bydd y Cyngor yn talu sylw i gyngor o'r fath wrth ystyried y camau gorfodi mwyaf priodol i ni eu cymryd. Efallai y byddwn ni'n trafod unrhyw angen am gyngor a chymorth cydymffurfio gyda'r prif awdurdod. Byddwn ni'n cydymffurfio â'r gofyniad statudol i hysbysu'r awdurdod sylfaenol o unrhyw gamau gorfodi arfaethedig.

Rydyn ni'n cydnabod y gall fod angen darparu cyngor a chymorth cydymffurfio parhaus i fusnes neu berson rydyn ni wedi cymryd camau gorfodi ffurfiol yn ei erbyn er mwyn atal tor-amod yn y dyfodol.

Camau Ffurfiol

1. Hysbysiadau Statudol

Mae deddfwriaeth benodol yn caniatáu i hysbysiadau statudol gael eu cyflwyno er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i droseddwyr gymryd camau penodol neu roi'r gorau i rai gweithrediadau o fewn cyfnodau penodol. Gall y rhain gynnwys hysbysiadau gwahardd, gwella, atal a gweithredu adferol. Mewn rhai achosion, gall swyddogion osod rhybudd statudol i gau adeilad am gyfnod byr yn y lle cyntaf, ond yna bydd angen i swyddogion gyflwyno cais i'r llysoedd am orchymyn i ymestyn y cyfnod cau. Bydd hysbysiad statudol yn nodi'n glir y camau y mae rhaid eu cymryd a'r terfynau amser cysylltiedig. Gall methu â chydymffurfio â hysbysiadau statudol fod yn dramgwydd ac mewn rhai achosion gall ganiatáu i'r Cyngor wneud gwaith yn ddiodyn a chodi tâl ar yr unigolyn y mae'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno iddo am gost gwaith o'r fath. Bydd yr hysbysiadau yma'n cael eu defnyddio lle mae deddfwriaeth yn cael ei thorri'n sylweddol; gall fod diffyg hyder yn ymateb yr unigolyn / y fenter i ymagwedd anffurfiol; neu fe all fod hanes o ddiffyg cydymffurfio. Gallai canlyniadau peidio â

chydymffurfio fod yn ddifrifol. Bydd gweithredu yn cynnwys cyflwyno rhybudd cyfreithiol priodol, wedi'i lofnodi gan swyddog sydd wedi'i awdurdodi'n briodol, pan fydd y swyddog ymchwilio yn ystyried bod hyn yn briodol ac yn cydymffurfio â gofynion y deddfwriaeth. Wrth benderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad statudol ai peidio, dylai swyddogion ystyried unrhyw faich ariannol y gallai hyn ei achosi i'r Cyngor. Bydd pob hysbysiad sy'n cael ei gyhoeddi yn cynnwys manylion unrhyw weithdrefn apelio berthnasol. Mae modd gosod rhai hysbysiadau sy'n cael eu rhoi mewn perthynas ag eiddo ar yr eiddo a / neu eu cofrestru fel pridiannau tir lleol.

2. Hysbysiadau Cosb Benodedig, Hysbysiadau Cosb am Anhrefn, a Hysbysiadau Tâl Cosb

Mae deddfwriaeth benodol yn caniatáu cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau cosb am anhrefn, hysbysiadau tâl cosb neu hysbysiadau ffi uwchlaw'r terfyn mewn perthynas â'r troseddau yma. Mewn rhai achosion, dydy'r tramgwydd y mae modd rhoi'r hysbysiad ar ei gyfer ddim yn dramgwydd troseddol a dim ond tor-amod sifil ydyw, felly fyddai erlyniad ddim ar gael ar gyfer tor-amod o'r fath. Serch hynny, gallai methu â thalu'r swm sydd wedi'i osod gan yr hysbysiad arwain at ymddangos gerbron y Llys Sirol am beidio â thalu dyled.

Yn yr achosion sy'n weddill, mae'r hysbysiadau yn rhoi cyfle i'r troseddwr osgoi erlyniad trwy dalu swm penodol o arian i gydnabod y tor-amod. Maen nhw'n cael eu cydnabod yn arfau gorfodi lefel isel, lle nad ydyn nhw'n creu cofnod troseddol ar gyfer y troseddwr. Dydy dewis talu'r gosb ofynnol ddim yn golygu cyfaddef euogrwydd ac felly fydd dim modd defnyddio cyhoeddi'r hysbysiadau yma fel tystiolaeth mewn unrhyw achos llys yn y dyfodol. Dydy talu cosb o'r fath ddim yn darparu imiwnedd rhag erlyniad mewn perthynas ag achosion o dor-amod tebyg neu reolaidd. Bydd y penderfyniad i gyhoeddi'r hysbysiadau yma yn ôl disgrisiwn y swyddog ymchwilio. Mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig os yw'r tor-amod yn ddifrifol neu'n rheolaidd, efallai y bydd erlyniad yn fwy priodol na chyflwyno hysbysiad o'r fath. Bydd swyddogion yn dilyn canllawiau perthnasol ar gyflwyno hysbysiadau o'r fath i bobl ifainc, a bydd oedran y troseddwr ac amgylchiadau'r drosedd yn dylanwadu ar y camau a fydd yn cael eu cymryd. Dim ond os oes tystiolaeth ddigonol i gefnogi erlyniad y bydd hysbysiadau o'r fath yn cael eu rhoi. Gallai methu â thalu'r swm sydd wedi'i osod gan yr hysbysiad arwain at ymddangos gerbron y Llys Sirol am beidio â thalu dyled. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cyngor ddewis defnyddio ei ddisgrisiwn wrth gychwyn achos erlyn am y drosedd wreiddiol a arweiniodd at gyhoeddi'r hysbysiad gwreiddiol. Bydd pob hysbysiad sy'n cael ei gyhoeddi yn cynnwys manylion unrhyw weithdrefn apelio berthnasol.

3. Achosion Atafaelu a Fforffedu

Mae rhai prosesau deddfwriaethol penodol yn galluogi swyddogion awdurdodedig i atafaelu nwyddau, offer neu ddogfennau, lle y gallai fod yn ofynnol iddyn nhw fod yn dystiolaeth ar gyfer achosion llys posibl yn y dyfodol neu i atal troseddau pellach rhag cael eu cyflawni. Pan gaiff eitemau eu hatafael, bydd derbynneb briodol yn cael ei

rhoi i'r person sydd wedi'u hildio. Bydd y penderfyniad i atafaelu eitemau yn ôl disgrisiwn y swyddog ymchwilio, yn amodol ar ofynion y ddeddfwriaeth.

Mewn rhai amgylchiadau bydd swyddogion yn cyflwyno cais i'r Llysoedd Ynadon am fforffedu'r nwyddau. Mae modd defnyddio fforffedu ar y cyd ag atafaelu a / neu erlyn, lle mae angen gwaredu'r nwyddau, cerbydau neu offer i'w hatal rhag cael eu defnyddio i hyrwyddo trosedd neu i'w hatal rhag ailymuno â'r farchnad.

Mewn achosion lles anifeiliaid lle mae rhai anifeiliaid yn dioddef neu'n debygol o ddioddef os nad yw eu hamgylchiadau'n newid, efallai y bydd y Cyngor yn ystyried eu dwyn i'w feddiant a gwneud cais i'r llys am orchmynion ar gyfer ad-dalu'r treuliau perthnasol sydd wedi'u hachosi.

4. Camau Gwaharddol

Mewn rhai amgylchiadau, gall swyddogion ofyn am orchmynion gwahardd yn y llysoedd sifil i atal torri ystod eang o gyfreithiau sy'n effeithio'n ddifrifol ar hawliau pobl eraill. Mae modd eu defnyddio i ddelio â throseddwr dro ar ôl tro, nwyddau peryglus neu niwed sylweddol i ddefnyddwyr yn gyffredinol. Weithiau mae modd mynd i'r afael â'r materion yma drwy gymryd camau anffurfiol gyda'r troseddwr, ond fel arall bydd modd cyflwyno cais i'r llysoedd sifil am waharddeb i atal y gweithrediadau niweidiol yma. Mewn achosion brys, efallai y bydd modd i swyddogion gyflwyno cais am orchmyn interim heb wrandawriad llawn. Gwneir y penderfyniad i geisio gwaharddeb gan uwch swyddog a fydd yn ystyried difrifoldeb ac amgylchiadau'r achos.

Mewn rhai achosion, lle mae'r gyfraith yn caniatáu, byddwn ni'n derbyn ymgymeriadau gwirfoddol gan droseddwr sy'n cytuno i beidio â gwneud y gweithrediad perthnasol neu wneud newidiadau, yn hytrach na gwneud cais am waharddeb ffurfiol. Bydd y rhain dim ond yn cael eu derbyn os oes digon o hyder gyda ni y bydd telerau'r ymgymeriad yn cael eu cyflawni. Rydyn ni'n fwy tebygol o dderbyn ymgymeriad gwirfoddol pan gaiff ei gynnig yn gynnar. Byddwn ni'n annhebygol o dderbyn ymgymeriad anffurfiol lle rydyn ni eisoes wedi penderfynu bod angen erlyniad mewn achos penodol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n ofynnol i swyddogion geisio gorchmynion gorfodi ar ôl cyhoeddi rhai hysbysiadau gorfodi, er mwyn rhoi cyfle i'r llys ystyried y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod gan yr hysbysiad.

Ar gyfer materion diogelu defnyddwyr mae modd ceisio gwaharddebau o dan y Ddeddf Menter. Os yw defnyddwyr wedi dioddef niwed o ganlyniad i rai achosion o dorri deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gall y Cyngor hefyd gyflwyno cais am orchmyn o dan y Ddeddf Menter i gael iawn i ddefnyddwyr sydd wedi dioddef colled neu i sicrhau cydymffurfiaeth er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dorri amodau neu i ddarparu gwybodaeth er mwyn cynnig dewis mwy eang i ddefnyddwyr. Pan fo'r ymchwiliad yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus, ar ôl cysylltu â Chydlynedd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Cyngor, gall swyddogion wneud cais i'r Llys Ynadon am Orchmyn Ymddygiad Troseddol. Gall swyddogion hefyd wneud cais am Orchmynion Ymddygiad Troseddol yn erbyn personau sydd wedi'u cael yn euog o

droseidd. Gallai torri gorchymyn sydd wedi'i roi gan y llysoedd arwain at achos llys am ddirmyg llys, y mae modd ei gosbi trwy ddirwy neu garchar.

5. Gwrthod, Diddymu, Adolygu ac Atal Trwyddedau a Hawlenni

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi nifer o drwyddedau a hawlenni ac mae ganddo hefyd ran i'w chwarae i sicrhau bod safonau priodol yn cael eu bodloni mewn perthynas â thrwyddedau sy'n cael eu cyhoeddi gan asiantaethau eraill. Mae'r rhan fwyaf o drwyddedau yn cynnwys amodau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddeiliad y drwydded gymryd camau penodol. Mewn rhai amgylchiadau gall y Cyngor benderfynu gwrthod rhoi trwydded o'r fath.

Lle mae gofyniad i fusnes, gweithrediad neu eiddo gael ei drwyddedu gan y Cyngor, fel arfer mae gan y Cyngor y pŵer i atal, adolygu neu ddiddymu amrywiaeth o drwyddedau yn ogystal â'u diwygio i atodi ystod o amodau. Weithiau - ac yn enwedig mewn perthynas â gyrwyr tacsï - mae modd atal trwydded ar unwaith os oes perygl uniongyrchol i'r cyhoedd neu y byddai parhad y drwydded yn debygol o ddwyn anfri ar y system drwyddedu. O ran adeiladau masnachol sydd wedi'u trwyddedu, fel arfer dim ond y Pwyllgor Trwyddedu all gymryd camau o'r fath. Gall asiantaethau gorfodi amrywiol neu drigolion lleol perthnasol alw am adolygiadau trwyddedau masnachol. Mae gan ddeiliaid trwyddedau hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawiadau adolygu neu ddirymu a chael eu hysbysu o'u hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor neu'r Awdurdod Lleol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi Trwyddedau Amgylcheddol i weithredwyr sy'n cyflawni rhai mathau o brosesau diwydiannol. Mae'r trwyddedau'n cynnwys amodau sydd wedi'u bwriadu i atal neu leihau llygredd trwy ddefnyddio'r technegau gorau sydd ar gael. Mae gan y Cyngor bwerau gorfodi i sicrhau bod y cyfleusterau rheoledig yn cael eu monitro a'u rheoli'n llym. Mae pwerau gorfodi yn cynnwys diddymu ac atal trwyddedau, ac mewn achosion difrifol, erlyn am beidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi.

Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau, gall y Cyngor gymryd i ystyriaeth unrhyw dor-amod a chmau gorfodi blaenorol.

6. Gwaharddiadau

Pan fydd troseddau difrifol iawn yn cael eu cyflawni (neu'u cyflawni dro ar ôl tro), mae gan y Cyngor bwerau mewn rhai meysydd i gyflwyno cais i'r llysoedd i wahardd pobl rhag cyflawni gweithrediadau penodol. Wrth benderfynu cymryd y cam yma, bydd uwch swyddog o'r Cyngor yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol sydd wedi'u rhestru mewn perthynas ag erlyniadau.

Yn ogystal â hynny, lle mae troseddwr yn torri'r gyfraith yn barhaus trwy werthu cynhyrchion tybaco i bobl dan oed, gall swyddogion gyflwyno cais i'r llys am orchymyn i wahardd adeilad neu berson rhag gwerthu tybaco am gyfnod.

7. Gorchmynion Deddf Enillion Troseddau

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y defnydd o'r pwerau sydd wedi'u rhoi yn y Ddeddf Enillion Troseddau i adennill asedau troseddol wneud cyfraniad sylweddol at amharu ar weithrediadau troseddol. Felly mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r defnydd o ymchwiliadau ariannol yn rhan annatod o ymchwiliadau troseddol a gall hyn arwain at atafaelu buddion y drosedd. Mae gwaith o'r fath yn cael ei wneud gan Ymchwiliwyr Ariannol sydd wedi'u hachredu'n briodol gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Nid mewn perthynas â throseddau difrifol yn unig y mae'r Ddeddf Enillion Troseddau yn cael ei defnyddio - fe all fod yn berthnasol i unrhyw achos o droseddau caffael. Mae troseddau caffael yn disgrifio troseddau lle mae'r tramgwyddwr yn cael budd sylweddol o'r drosedd. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill sy'n cynnal ymchwiliadau ariannol er mwyn gwneud y mwyaf o asedau ac arian sydd wedi'u hatafael o dan y Ddeddf Enillion Troseddau.

Gall swyddogion wneud ceisiadau o dan y Ddeddf Enillion Troseddau i atafaelu asedau troseddol mewn achosion perthnasol. Y diben yw adennill y budd ariannol y mae'r troseddwr wedi'i gael o'i droseddau. Dim ond ar ôl cael euogfarn droseddol y bydd achosion yn cael eu cynnal, ond fe gân nhw eu cynnal yn unol â safon prawf sifil. Fydd trafodion y Ddeddf Enillion Troseddau ddim yn digwydd oni bai ein bod ni wedi ystyried y ffactorau sy'n ymwneud â'r profion yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron wrth ddod i'n penderfyniad cychwynnol i erlyn. Byddwn ni'n ystyried unrhyw ffactorau perthnasol wrth benderfynu a ddylid cychwyn Ymchwiliad Enillion Troseddau neu a ddylid parhau ag ef neu ei newid os daw tystiolaeth bellach i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Dylid nodi y gall y Llysoedd ein cyfarwyddo i gynnal Ymchwiliad Enillion Troseddau pan fyddan nhw o'r farn bod hyn yn briodol.

Yn rhan o ymchwiliad, bydd Ymchwiliwyr Ariannol Achrededig yn gallu cyflwyno cais am y gorchmynion sydd ar gael o dan y deddfwriaeth, gan gynnwys cyflwyno cais am Orchmynion Atal i atal asedau a Gorchmynion Cyflwyno i gael gwybodaeth ariannol. Bydd Ymchwiliwyr Ariannol Achrededig hefyd yn gallu atafaelu arian parod o £1000 ac uwch a nwyddau penodol o werth mawr megis gweithiau celf, pan gaiff ei ddarganfod tra bod swyddogion ar eiddo yn gyfreithlon. Mae hyn er mwyn ymchwilio i darddiad yr arian parod gyda golwg ar gyflwyno cais am Orchmynion Fforffedu mewn Llys Ynadon. Yn yr un modd, efallai y gall Ymchwiliwyr Ariannol Achrededig atafaelu eiddo a allai fel arall ddiflannu, y gallai fod modd ei ddefnyddio i fodloni gorchmyn atafaelu.

8. Sanctsiynau Sifil

Mae deddfwriaeth benodol yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor osod gwahanol sanctsiynau sifil.

8.1) Cosbau Ariannol

Mae deddfwriaeth benodol yn galluogi swyddogion sy'n ystyried bod trosedd neu dor-amod wedi ei gyflawni i gyflwyno gwahanol fathau o hysbysiadau sy'n gosod cosb ariannol; cyfeirir atyn nhw yn aml fel hysbysiadau cosb. Dydy cosbau ariannol ddim yn ddirwyon am droseddu a dydyn nhw ddim yn ymddangos ar gofnod troseddol unigolyn. Mewn rhai achosion mae swm y gosb yn amrywio, rhwng terfynau uchaf ac isaf penodedig. Y Cyngor sy'n penderfynu beth yw'r terfynau yma ond, mewn rhai achosion, swm sefydlog yw e. Fel arfer bydd talu'r swm cosb o fewn cyfnod penodol o

amser yn atal y Cyngor rhag cymryd achos cyfreithiol, ond os na fydd taliad o'r fath yn cael ei wneud, bydd y Cyngor wedyn yn gallu erlyn.

Mae ffurf a chynnwys hysbysiadau o'r fath yn amrywio gan ddibynnu ar fath y ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw hysbysiad sy'n cael ei roi yn y ffurf sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth benodol. Yn ddiethriad bron, bydd yr hysbysiad yn gofyn am fanylion yr amgylchiadau a arweiniodd at y drosedd, swm y gosb, y cyfnod pan na fydd camau yn cael eu cymryd ar gyfer y drosedd a manylion am sut a ble i dalu. Fel arfer bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Cyngor ddiwygio neu dynnu hysbysiadau o'r fath yn ôl os yw'n briodol gwneud hynny.

Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i gyhoeddi 'hysbysiad cosb' a chaniatáu i'r troseddwr gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau o fewn cyfnod penodedig. Unwaith y bydd y person yn cyflwyno sylwadau neu'n gwneud dim, byddwn ni wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol o fewn y cyfnod penodedig, yn seiliedig ar yr holl amgylchiadau ac ymateb y person. Os y Cyngor fydd yn gosod lefel y gosb, efallai y bydd yn penderfynu gosod y swm gwreiddiol, neu i addasu'r swm yma, neu beidio â gosod y gosb o gwbl, efallai lle mae'r ymateb yn dangos bod gan yr unigolyn amddiffyniad priodol neu oherwydd y byddai gosod cosb ariannol yn anghyhyrchiol. Os penderfynwn ni fwrw ymlaen, byddwn ni'n cyhoeddi hysbysiad terfynol fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth benodol.

Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn galluogi'r person i gyflawni ei rwymedigaeth trwy dalu swm llai o arian erbyn dyddiad cynnar penodedig.

Pan fyddwn yn penderfynu ar y lefel briodol ar gyfer yr hysbysiadau cosb hynny sy'n caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar y swm, byddwn ni'n ystyried yr holl ffactorau yn yr achos, gan gynnwys unrhyw rai sydd wedi'u pennu gan y ddeddfwriaeth. Wrth wneud hynny, byddwn ni yn aml yn ceisio dileu unrhyw fudd o ddiffyg cydymffurfio ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Mewn achosion priodol, dyma fydd y dull y byddwn ni'n debygol o'i ddefnyddio wrth wneud penderfyniad o'r fath:

- a) Byddwn ni'n amcangyfrif y budd sy'n deillio o'r diffyg cydymffurfio; (Os na allwn ni wneud hyn neu os nad ydyn ni o'r farn ei bod yn briodol ei ddefnyddio fel man cychwyn, byddwn ni'n defnyddio'r lefel fwyaf perthnasol o gosb benodedig sydd ar gael neu'r ddirwy uchaf y cawn ni ei gosod gan lys ynadon ar gyfer y drosedd);
 - b) Byddwn ni'n ychwanegu elfen ataliol briodol yn seiliedig ar unrhyw ffactorau gwaethgol neu liniarol;
 - c) Byddwn ni'n lleihau'r swm os yw'n uwch na'r uchafswm statudol;
- (Byddwn ni hefyd yn ystyried gwneud addasiadau i ddidynnu cost y person sy'n cydymffurfio ag unrhyw ofyniad anariannol, os ydyn ni wedi gosod gofynion o'r fath.)

Mae'r mathau o faterion y byddwn ni'n ystyried eu bod yn ffactorau gwaethgol yn cynnwys graddfa'r amhriodoldeb; anwybyddu cyngor ac arweiniad cynharach; diffyg sylw prydlon i gywiro methiannau a nodwyd; a hanes o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r mathau o faterion y byddwn ni'n eu hystyried yn ffactorau lliniarol yn cynnwys mesurau ataliol sydd wedi'u cymryd; cydweithredu â'r Cyngor yn ystod yr ymchwiliad (megis darparu gwybodaeth neu gymorth yn wirfoddol); rhoi gwybod yn wirfoddol am y diffyg cydymffurfio; unrhyw adferiad sydd wedi'i gymryd; amgylchiadau personol a

allai fel arall leihau'r bai (e.e. oedran, materion iechyd); a nodweddion lliniarol sy'n benodol i achosion eraill.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth benodol ynglŷn â chyhoeddi pob hysbysiad o'r fath. Os bydd canllawiau cenedlaethol perthnasol ar ddefnyddio unrhyw sancsiynau sifil o'r fath dan ddeddfwriaeth benodol yn cael eu cyflwyno, byddwn ni'n cydymffurfio â nhw. Byddwn ni hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw fecanwaith apelio sydd wedi'i bennu gan y ddeddfwriaeth.

Mae cosbau ariannol sefydlog yn briodol yn bennaf ar gyfer troseddau diamwys lle mae cyngor ac arweiniad eisoes wedi cael eu rhoi, ond dydy'r person ddim wedi cydymffurfio neu dydy e ddim wedi talu llawer o sylw i'r cyngor ac arweiniad hynny. Mae hyn yn debygol o ddigwydd mewn amgylchiadau lle rydyn ni o'r farn bod cyfiawnhad dros droi at weithdrefnau ffurfiol i ddangos bod angen i'r gweithredwr busnes neu'r unigolyn roi sylw mwy difrifol i'w rwymedigaethau a blaenoriaethu ei ymdrechion cydymffurfio. Dydyn nhw ddim yn addas ar gyfer achosion mwy difrifol o ddiffyg cydymffurfio, er enghraifft, lle mae effaith diffyg cydymffurfio yn sylweddol neu lle mae tystiolaeth o ddiystyru'r gyfraith yn fwriadol, neu ddiffyg cydymffurfio dro ar ôl tro. Mae cosbau ariannol amrywiol yn debygol o gael eu gosod ar gyfer yr achosion hynny lle rydym yn ceisio cael gwared ar y budd o ddiffyg cydymffurfio ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol, er enghraifft pan fo effaith diffyg cydymffurfio yn sylweddol neu os oes tystiolaeth o ddiystyru bwriadol i'r gyfraith.

8.2) Gofynion anariannol

Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn galluogi swyddogion sy'n ystyried bod trosedd neu dor-amod wedi ei gyflawni i osod gofynion anariannol, lle'r Cyngor sy'n penderfynu ar union natur y sancsiynau. Dan yr amgylchiadau yma, gallwn ni osod gofynion anariannol ar y cyd â chosbau ariannol. Fel arfer, byddwn ni'n defnyddio gofynion anariannol o'r fath ar gyfer achosion mwy difrifol o ddiffyg cydymffurfio, megis pan fydd tystiolaeth bod y gyfraith wedi'i diystyru neu ddiffyg cydymffurfio dro ar ôl tro. Pan fydd y Cyngor yn penderfynu gosod gofynion yn ôl ei ddisgresiwn nad ydyn nhw'n ariannol, bydd yn nodi'n glir pa gamau y dylai'r busnes eu cymryd a'r cyfnod amser sydd gydag ef i'w cwblhau.

Mae gofynion anariannol yn cynnwys hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer a hysbysiadau atal. Weithiau mae hysbysiadau cydymffurfio yn cael eu galw'n hysbysiadau gwella. Maen nhw'n gofyn i'r unigolyn gymryd camau i sicrhau nad yw tor-amod yn parhau neu'n digwydd eto. Mae hysbysiadau adfer yn gofyn i'r unigolyn gymryd camau i adfer niwed sydd wedi'i achosi gan ddiffyg cydymffurfio. Mae hysbysiadau stop yn gwahardd y person rhag cyflawni gweithrediad nes bod y person wedi cymryd y camau penodedig i gael gwared ar y risg o niwed difrifol. Ym mhob achos byddwn ni'n penderfynu beth fydd y camau hynny a'r cyfnod amser sydd gan yr unigolyn i'w cwblhau. Mae modd defnyddio enwau gwahanol mewn deddfwriaeth wahanol ar gyfer hysbysiadau sy'n gwasanaethu dibenion tebyg.

Byddwn ni'n ystyried gofynion anariannol o'r fath ym mhob achos lle rydyn ni o'r farn bod angen gosod sancsiynau ond bod cosb ariannol yn unig yn anaddas neu nad yw ar gael. Prif bwrpas gosod y mathau yma o ofynion yw sicrhau bod y person yn

addasu ei ymddygiad, er mwyn atal y tor-amod parhaus neu fynd i'r afael â'r achosion sy'n arwain at dor-amod neu adfer unrhyw niwed a gafodd ei achosi gan y gweithrediad.

Mae ffurf a chynnwys hysbysiadau o'r fath yn amrywio gan ddibynnu ar fath y ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw hysbysiad sy'n cael ei roi yn y ffurf sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth benodol. Yn ddieithriad bron, bydd yr hysbysiad yn gofyn am fanylion yr amgylchiadau sydd wedi arwain at y drosedd, manylion am y camau y mae'n ofynnol i'r unigolyn eu cymryd a'r cyfnod ar gyfer gwneud hyn. Fel arfer bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Cyngor ddiwygio neu dynnu hysbysiadau o'r fath yn ôl os yw'n briodol gwneud hynny.

Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i gyhoeddi gofyniad anariannol a chaniatáu i'r troseddwr gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau o fewn cyfnod penodol. P'un a yw'r person yn gwneud sylwadau neu'n gwneud dim o fewn y cyfnod hwnnw, byddwn ni wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol ar y gofyniad y byddwn ni'n ei osod o fewn y cyfnod penodedig, yn seiliedig ar yr holl amgylchiadau ac ymateb y person. Efallai y byddwn ni'n penderfynu gosod y gofyniad gwreiddiol neu fersiwn ddiwygiedig o'r gofyniad, gosod gofyniad arall neu beidio â gosod y gofyniad o gwbl; efallai os yw'r ymateb yn dangos y byddai gan yr unigolyn amddiffyniad priodol neu y byddai gosod y gofyniad yn anghynhyrchiol. Os penderfynwn ni fwrw ymlaen, byddwn ni'n cyhoeddi hysbysiad terfynol fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth benodol. Gall rhai prosesau deddfwriaethol ganiatáu i ni gyflwyno hysbysiad adfer costau gorfodi ar yr un pryd â chyflwyno'r hysbysiad terfynol i'n galluogi i adennill yr holl gostau sydd wedi'u hachosi, gan gynnwys costau ymchwilio, costau gweinyddu a chostau cael cyngor arbenigol.

Os nad yw'r person yn cydymffurfio'n llawn â gofyniad anariannol erbyn y dyddiad gofynnol, yna gall torri rhai hysbysiadau fod yn drosedd ynddo'i hun y gallwn ni erlyn amdani. Serch hynny, yn aml, gallwn ni osod cosb ariannol, sy'n cael ei galw weithiau'n gosb am beidio â chydymffurfio. Wrth osod cosb am beidio â chydymffurfio, fel arfer, y Cyngor sy'n penderfynu ar y swm i'w dalu, yn amodol ar yr uchafswm statudol ac unrhyw feini prawf rhagnodedig. Wrth wneud hyn, byddwn ni'n ceisio gosod y swm ar lefel sy'n adlewyrchu swm y costau sydd wedi'u hosgoi gan y methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad gwreiddiol. Pan fydd y person wedi cwblhau rhai, ond nid pob un, o'r camau gofynnol, byddwn ni'n ceisio gosod swm y gosb am beidio â chydymffurfio ar gostau llawn cydymffurfio â'r gofynion, llai y costau sydd wedi'i hachosi wrth gyflawni'r camau sydd wedi'u cymryd eisoes. Mae rhai prosesau deddfwriaethol yn gosod gofyniad ar y Cyngor i gyflwyno hysbysiad o fwriad i gyflwyno cosb am beidio â chydymffurfio. Unwaith y bydd y person sy'n derbyn hysbysiad o fwriad o'r fath wedi gwneud sylwadau neu wedi gwneud dim, byddwn ni'n gwneud penderfyniad terfynol o fewn y cyfnod penodedig, yn seiliedig ar yr holl amgylchiadau ac ymateb y person.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth benodol ynglŷn â chyhoeddi pob hysbysiad o'r fath. Os bydd canllawiau cenedlaethol perthnasol ar ddefnyddio unrhyw sancsiynau sifil o'r fath dan ddeddfwriaeth benodol yn cael eu cyflwyno, byddwn ni'n cydymffurfio â nhw. Byddwn

ni hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw fecanwaith apelio sydd wedi'i bennu gan y ddeddfwriaeth.

Bydd cyflwyno hysbysiad cydymffurfio yn briodol yn bennaf er mwyn atal trosedd rhag digwydd eto lle bydd modd cydymffurfio drwy addasiadau cymharol syml i'r broses neu labelu ac mewn achosion difrifol i osgoi cyflenwi cynnyrch nad yw'n cydymffurfio i ddefnyddwyr neu ddosbarthwyr ymhellach.

Bydd cyflwyno hysbysiad stop yn briodol yn bennaf pan fyddwn ni'n fodlon bod y gweithrediad yn achosi niwed difrifol neu'n peri risg sylweddol o achosi niwed difrifol i ieuchyd pobl neu'r amgylchedd neu fuddiannau ariannol defnyddwyr. Serch hynny, efallai na fydd hi'n briodol gwneud hynny os nad yw er budd y cyhoedd neu os yw'r unigolyn neu'r busnes wedi cymryd camau gwirfoddol ar unwaith i roi'r gorau i gamau gweithredu penodol.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall y ddeddfwriaeth ganiatáu i fusnesau gorfodi gwirfoddol gynnig ymgymeriadau (yn gamau ffurfiol), y maen nhw'n cynnig eu cyflawni yn rhagweithiol er mwyn sicrhau y bydd y tor-amod yn cael ei gywiro neu atal y tor-amod rhag digwydd eto. Gall y Cyngor dderbyn ymgymeriadau gwirfoddol o'r fath, ond bydd yn cymryd unrhyw fethiant i anrhydeddu ymgymeriadau gwirfoddol o'r fath o ddifrif a bydd camau gorfodi yn debygol o gael eu cymryd yn sgil hynny.

Rydyn ni o'r farn efallai na fydd yn briodol derbyn ymgymeriad gorfodi pan nad oes digon o fanylion ynglŷn â sut y bydd achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei ddatrys neu os nad yw lefel y diffyg cydymffurfio yn cael ei gydnabod yn llawn neu pan fydd ffactorau'n bresennol sy'n dangos bod erlyniad neu sancsiwn sifil arall yn fwy priodol.

9. Rhybuddion Syml

Mae rhybudd syml yn ddewis arall yn lle erlyn, lle mae'r amgylchiadau yn golygu bod y rhybudd yn debygol o fod yn effeithiol ac mae defnyddio rhybudd yn briodol i'r drosedd. Cyfaddefiad o euogrwydd yw e, ond dydy e ddim yn ffurf ar ddeddfryd, nac ychwaith yn gollfarn droseddol. Mae rhybuddion syml yn cael eu cyhoeddi gan uwch swyddog i droseddwr sydd dros 18 oed yn unig, lle mae digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o gollfarn ac mae rhoi rhybudd syml (yn hytrach na chymryd camau cyfreithiol) er budd y cyhoedd. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r troseddwr gyfaddef ei fod yn euog a rhoi caniatâd i rybuddio er mwyn rhoi rhybudd. Does dim unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i unrhyw berson dderbyn y cynnig o rybudd syml, ond fel arfer bydd methu â derbyn rhybudd yn arwain at erlyniad am y drosedd.

Wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, bydd modd ystyried rhoi rhybudd syml, ond gellir penderfynu nad yw rhoi rhybudd yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r achos.

Fel arfer dydy hi ddim yn briodol gweinyddu ail rybudd syml i'r un troseddwr am drosedd debyg o fewn cyfnod o ddwy flynedd.

Os bydd rhybudd syml yn cael ei gynnig i berson ond mae'n gwrthod ei dderbyn neu'n methu â bod yn bresennol, yna rhaid i'r achos fynd ymlaen i erlyniad. Ar y cam yma,

gan fod y person eisoes wedi gwrthod derbyn rhybudd fydd hi ddim yn briodol cynnig y rhybudd i'r person am yr eildro.

Os yw'r troseddwr yn cyflawni trosedd arall, gall y rhybudd ddylanwadu ar y penderfyniad i erlyn ai peidio. Mae modd rhoi rhybudd syml yn y llys, felly gall ddylanwadu ar ddifrifoldeb unrhyw ddedfryd sy'n cael ei gosod gan y llys. Gall derbyn rhybudd syml effeithio ar yr unigolyn os yw'n ceisio mathau penodol o gyflogaeth.

Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 yn gosod cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio Rhybuddion Syml. Mae'r ddeddfwriaeth yma'n cyfyngu ar ddefnyddio Rhybuddion Syml ar gyfer troseddau sy'n droseddau anghyfreithlon yn unig, ar gyfer rhai troseddau dwy ffordd penodol (ond dydy'r rhain ddim yn ymwneud â deddfwriaeth sydd wedi'i gorfodi gan y Cyngor) ac ar gyfer troseddau eraill lle mae'r troseddwr wedi ei gael yn euog o drosedd debyg (neu wedi cael rhybudd am drosedd debyg) o fewn y ddwy flynedd cyn i'r drosedd gael ei chyflawni, oni bai, ym mhob achos, y penderfynir bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, caniateir i'r Cyngor ddod i'r casgliad bod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau rhybudd syml os yw'n fodlon, pe bai'r troseddwr yn cael ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd, y byddai'r llys yn annhebygol o osod dedfryd o garchar (ar unwaith neu wedi'i gohirio) neu orchymyn cymunedol lefel uchel. At hynny, wrth asesu a oes amgylchiadau eithriadol o'r fath, rhaid ystyried y ffactorau canlynol nad ydynt yn gyflawn: a) lefel beusrwydd y troseddwr; b) unrhyw niwed a gafodd ei achosi gan y drosedd; c) unrhyw ffactorau sy'n gwaethygu neu'n lleihai'r bai; ch) rhagflaenwyr y troseddwr; d) cyfiawnder yr achos yn gyffredinol ac a yw'r amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r achos gael ei drin drwy erlyniad ac dd) y dedfrydau sy'n briodol i ffeithiau'r achos. Rhaid i swyddogion drin trosedd flaenorol mewn modd tebyg i'r drosedd bresennol os oedd hi o'r un disgrifiad neu o natur debyg, er enghraifft, mae'r ddwy yn ymwneud ag anonestrwydd).

Os bydd yr holl ofynion uchod yn cael eu bodloni, rhaid i'r uwch swyddog ystyried a yw difrifoldeb y drosedd yn ei gwneud hi'n addas i'w gwaredu drwy Rybudd Syml ac a yw Rhybudd yn debygol o fod yn effeithiol yn yr amgylchiadau. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r drosedd, y mwyaf tebygol y bydd angen erlyn. Dylai swyddogion ystyried unrhyw ffactorau sy'n gwaethygu neu'n lleihau'r bai wrth asesu difrifoldeb a hefyd ystyried a yw'r canllawiau dedfrydu yn dangos dedfryd debygol o garchar neu orchymyn cymunedol lefel uchel. Gall yr uwch swyddog ddod i'r casgliad nad yw budd y cyhoedd yn gofyn am erlyn y troseddwr ar unwaith.

10. Erlyniadau

Rydyn ni'n cydnabod bod y rhan fwyaf o bobl yn dymuno cydymffurfio â'r gyfraith. Serch hynny, mae adegau pan fyddwn ni'n cymryd camau gorfodi, gan gynnwys erlyn y rhai sy'n torri'r gyfraith, neu sy'n methu â chydymffurfio yn fwriadol neu'n barhaus, neu sy'n gweithredu'n anghyfrifol neu lle mae risg uniongyrchol i iechyd a diogelwch. Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, bydd nifer o ffactorau'n cael eu hystyried, gan gynnwys:

- Natur y drosedd honedig
- Difrifoldeb y drosedd honedig
- Hanes blaenorol y busnes neu'r personau dan sylw
- Y tebygolrwydd y bydd diffynnydd yn sefydlu amddiffyniad statudol sydd ar gael
- Camau gweithredu gan fusnes er mwyn atal digwyddiad arall tebyg
- Unrhyw esboniad sydd wedi'i gynnig ac, i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu, amgylchiadau ac agwedd y busnes tuag at gydymffurfio
- Pa gamau gweithredu fydd yn gwasanaethu budd y cyhoedd orau

(Gweler hefyd ffactorau budd y cyhoedd o dan y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.)

Mae'r penderfyniad i erlyn yn cael ei wneud gan uwch swyddog sydd wedi'i awdurdodi'n briodol o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor:

- yn unol â'r Polisi yma;
- yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron;
- ac yn unol â gofynion statudol, gan ystyried yr holl godau ymarfer eraill.

Ar ôl penderfynu erlyn, ein polisi yw dewis troseddau sy'n adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu, rhoi pwerau digonol i'r llys ddedfrydu a gosod gorchmynion ôl-gollfarnu priodol a galluogi'r achos i gael ei gyflwyno mewn ffordd glir a syml.

Weithiau, bydd modd erlyn yn y llysoedd troseddol ar yr un pryd â chynnal achosion sifil yn y llysoedd sifil.

Mewn amgylchiadau lle mae'r diffynnydd am bledio'n euog i rai, ond nid yr holl gyhuddiadau, bydd y Cyngor dim ond yn derbyn ple o'r fath os ydyn ni o'r farn fod y llys yn dal i allu pasio dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu. Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos y Cyngor a lle gallai hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, byddwn ni fel arfer yn gwahodd y llys i glywed tystiolaeth i benderfynu beth ddigwyddodd ac yna dedfrydu ar y sail honno.

Bydd collfarn yn arwain at gofnod troseddol. Gall y llys osod dirwy a/neu orchymyn cymunedol a/neu osod dedfryd o garchar mewn perthynas â thor-amod arbennig o ddifrifol. Gall y llys hefyd orchymyn fforffedu eitemau sydd wedi'u hatafael neu nwyddau sydd ddim yn cydymffurfio. Mewn rhai amgylchiadau gall erlyniad arwain at wahardd unigolion rhag gyrru neu rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr cwmni.

Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron

Rydyn ni'n defnyddio dau brawf o dan y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron i benderfynu a yw erlyniad neu rybudd syml yn ddull dichonadwy a phriodol o'i waredu a rhaid i'r achos basio'r ddau brawf cyn cychwyn erlyniad neu ddefnyddio rybudd syml.

Rhaid i ni fod yn fodlon o dan y prawf tystiolaethol, ar ôl asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth, gan gynnwys effaith unrhyw amddiffyniad ac unrhyw wybodaeth arall

sydd wedi'u cyflwyno gan y sawl sy'n cael ei ddrwgdybio neu y gallai ef / hi ddibynnu arni, fod digon o dystiolaeth i ddarparu "gobaith realistig o euogfarn" yn erbyn pob diffynnydd ar bob trosedd. Mae hyn yn golygu bod rheithgor gwrthrychol, diduedd a rhesymol o ynadon, neu farnwr sy'n gwrandao ar yr achos, pan gaiff ei gyfarwyddo a'i weithredu'n briodol yn unol â'r gyfraith yn fwy tebygol na pheidio o gollfarnu'r diffynnydd o'r drosedd honedig. Yn rhan o'r prawf yma, byddwn ni'n asesu a oes modd defnyddio'r dystiolaeth yn y llys, a yw'n ddibynadwy ac a yw'n gredadwy. Byddwn ni'n edrych yn fanwl ar unrhyw dystiolaeth lle nad ydyn ni'n siŵr a oes modd ei defnyddio neu a yw'n ddibynadwy neu'n gredadwy.

Os yw'r achos yn pasio'r prawf tystiolaethol rhaid i ni gymhwyso'r prawf budd y cyhoedd i benderfynu a fydd gweithredu er budd y cyhoedd. Fel arfer bydd erlyniad yn digwydd oni bai fod ffactorau budd y cyhoedd yn tueddu yn erbyn erlyn sy'n gorbwyso'r rhai o blaid neu rydyn ni'n fodlon y gallai budd y cyhoedd gael ei wasanaethu'n briodol drwy ddefnyddio dull gwaredu arall. Byddwn ni'n cydbwysu ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus ac yn deg. Gall rhai ffactorau gynyddu'r angen i erlyn ond efallai y bydd eraill yn awgrymu y byddai dull gweithredu arall yn well.

Wrth benderfynu ar fudd y cyhoedd byddwn ni'n ystyried y cwestiynau canlynol:

1. Pa mor ddifrifol yw'r drosedd sydd wedi'i chyflawni?
2. Beth yw lefel beiusrwydd y sawl sydd dan amheuaeth?
3. Beth yw'r amgylchiadau a'r niwed sydd wedi'i achosi i'r dioddefwr?
4. Ydy'r sawl sydd dan amheuaeth o dan 18 oed?
5. Beth yw'r effaith ar y gymuned?
6. Ydy erlyn yn ymateb cymesur?
7. Oes angen diogelu ffynonellau gwybodaeth?

Dydy'r cwestiynau ddim yn gynhwysfawr a dydy pob un ohonyn nhw ddim yn berthnasol ym mhob achos. Wrth ateb y cwestiynau yma, mae rhai o'r ffactorau y byddwn ni'n eu hystyried i'w gweld isod, ond unwaith eto, dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr:

- Difrifoldeb y drosedd. Mae'r sawl dan amheuaeth wedi ymddwyn yn dwyllodrus neu yn ddi-hid neu'n esgeulus yn eu gweithrediadau neu mae risg sylweddol i iechyd a diogelwch y cyhoedd neu'r amgylchedd;
- Pa mor sylweddol yw'r enillion i'r troseddwr neu'r golled i'r dioddefwr;
- Cafodd y drosedd ei chyflawni er mwyn hwyluso troseddu mwy difrifol;
- Lefel beiusrwydd y sawl sydd dan amheuaeth;
- Ydy'r sawl sydd dan amheuaeth yn dioddef o iechyd gwael neu broblem iechyd meddwl arwyddocaol neu a oedd yn dioddef o'r rhain ar adeg cyflawni'r drosedd;
- Os oes tystiolaeth bod erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr;
- Lefel cyfranogiad y sawl dan amheuaeth yn y drosedd;
- Roedd y sawl dan amheuaeth yn arweinydd neu'n trefnu'r drosedd;
- I ba raddau y cafodd y drosedd ei rhagfwriadu a/neu ei chynllunio;

- A oes gan y sawl dan amheuaeth euogfarnau troseddol blaenorol neu warediadau y tu allan i'r llys;
- A yw'r troseddu wedi digwydd tra bod y sawl dan amheuaeth ar fechnïaeth neu'n destun gorchymyn llys;
- A yw'r troseddu yn debygol o gael ei barhau, ei ailadrodd neu ei gynyddu;
- Presenoldeb unrhyw gymhellant, unrhyw fath o wahaniaethu neu elyniaeth;
- Mae'r sawl sydd dan amheuaeth wedi ceisio cuddio ei hunaniaeth, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i'w gwneud yn fwy anodd adnabod neu olrhain y person;
- Mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn rhwystro swyddog yn fwriadol;
- Cafodd y drosedd ei chyflawni o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth gwirioneddol;
- Gall y golled neu'r niwed gael ei ddisgrifio'n un mân ac roedd yn ganlyniad i un digwyddiad, yn enwedig os cafodd ei achosi gan gamfarnu;
- Gwnaeth y sawl dan amheuaeth gydnabyddiaeth brydlon o euogrwydd;
- Mae'r sawl sydd dan amheuaeth wedi cywiro'r golled neu'r niwed sydd wedi'i achosi, ond rhaid iddo beidio ag osgoi erlyniad neu warediad y tu allan i'r llys dim ond am ei fod yn talu iawndal neu'n ad-dalu'r swm o arian a gafodd yn anghyfreithlon;
- Mae'r llys yn debygol o osod cosb isafol;
- Lefel diymadferthedd y dioddefwr;
- A yw sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod yn bodoli rhwng y sawl dan amheuaeth a'r dioddefwr;
- Os cafodd y drosedd ei chyflawni yn erbyn dioddefwr a oedd yn gwasanaethu'r cyhoedd ar y pryd;
- Barn y dioddefwr am yr effaith y mae'r drosedd wedi'i chael, a all gynnwys barn teulu'r dioddefwr;
- Oed neu aeddfedrwydd y sawl sydd dan amheuaeth;
- Os yw'r troseddwr dan 18 oed, a yw erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar ddyfodol y person ifanc sy'n anghymesur â difrifoldeb y troseddu;
- Lefel effaith y troseddu ar y gymuned, p'un a yw'r erlyniad yn gymesur â'r canlyniad tebygol, gan gynnwys y gost i'r Cyngor a'r system cyfiawnder troseddol ehangach;
- A oes modd erlyn yr achos mewn ffordd sy'n caniatáu rheoli achosion yn effeithiol;
- Bydd modd ymdrin â difrifoldeb a chanlyniadau'r troseddu yn briodol gan warediad y tu allan i'r llys y mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn ei dderbyn ac y mae'n cydymffurfio ag ef.

Dylid cymryd gofal arbennig gydag achosion lle gallai fod angen cyhoeddi manylion a allai niweidio ffynonellau gwybodaeth.

Pan fyddwn ni'n asesu budd y cyhoedd, fyddwn ni ddim yn adio nifer y ffactorau ar bob ochr i ddarganfod pa ochr sydd â'r nifer fwyaf. Bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei ffeithiau ei hun a'i rinweddau ei hun. Byddwn ni'n penderfynu pa mor bwysig yw pob ffactor budd cyhoeddus yn amgylchiadau pob achos ac yn mynd ymlaen i wneud

asesiad cyffredinol o fudd y cyhoedd. Mae'n eithaf posibl y gall un ffactor yn unig fod yn drech na nifer o ffactorau eraill sy'n tueddu i'r cyfeiriad arall. Fyddwn ni ddim yn cymryd yn ganiataol bod absenoldeb ffactor o reidrwydd yn golygu y dylid ei gymryd fel ffactor sy'n tueddu i'r cyfeiriad arall. Er y gallai fod ffactorau budd y cyhoedd yn tueddu yn erbyn erlyn, weithiau efallai y byddwn ni'n ystyried y dylai erlyniad fynd yn ei flaen er mwyn caniatáu i'r llys ystyried y ffactorau hynny wrth benderfynu ar y ddedfryd sydd i'w thraddodi.

Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid erlyn mewn achos penodol ai peidio yn cael ei wneud gan uwch swyddog sydd wedi'i awdurdodi o dan Gynllun Dirprwy Cyffredinol y Cyngor i gychwyn erlyniad. Bydd ef neu hi dim ond yn gwneud hynny ar ôl cynnal adolygiad trylwyr o dystiolaeth ac amgylchiadau'r achos. Os penderfynir erlyn, lle mae'r gyfraith yn caniatáu, byddwn ni bob amser yn ceisio adennill costau'r ymchwiliad a'r achosion cyfreithiol.

Os yw trosedd wedi cael ei chyflawni gan gorff corfforaethol, lle mae'r gyfraith yn caniatáu, byddwn ni'n ystyried erlyn cyfarwyddwyr neu reolwyr neu swyddogion cwmni eraill pan fydd y drosedd wedi'i chyflawni gan esgeulustod, cydsyniad neu ymoddefiad person o'r fath. Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn ni'n cymryd camau yn erbyn y corff mwyaf priodol, boed y cwmni, y cyfarwyddwr neu'r ddau.

11. Gorchmynion sydd wedi'u gosod gan y llysoedd sy'n atodol i'r erlyniad

Ar ddiwedd erlyniad llwyddiannus byddwn ni'n cyflwyno cais am orchmynion llys ategol ym mhob achos priodol. Isod, mae rhai o'r gorchmynion ategol y gall llys eu gwneud yn dilyn collfarn:

- Gorchmynion Ymddygiad Troseddol;
- Anghymhwysio rhag gyrru;
- Anghymhwysio cyfarwyddwyr;
- Gorchmynion iawndal;
- Gorchmynion fforffedu;
- Gorchmyn atafaelu'r Ddeddf Enillion Troseddau;
- Gorchmynion cadw arian parod y Ddeddf Enillion Troseddau

Cyhuddo pobl dan amheuaeth

Efallai y bydd amgylchiadau pan fydd rhywun dan amheuaeth wedi cael ei arestio gan yr heddlu er bod y Cyngor yn ymchwilio i'r drosedd. Ar ôl i'r sawl dan amheuaeth gael ei holi yng ngorsaf yr heddlu, gallai'r swyddog ymchwilio ystyried ei bod hi'n briodol cyhuddo'r troseddwr yng ngorsaf yr heddlu yn hytrach na rhoi gwybod i'r sawl sydd dan amheuaeth fel y bydd modd rhoi gwŷs yn ddiweddarach. Bydd cais o'r fath yn cael ei ystyried gan uwch swyddog sydd wedi'i awdurdodi i gychwyn erlyniad; os yw'r uwch swyddog yn fodlon bod y profion tystiolaethol a lles y cyhoedd yn cael eu bodloni, bydd ef neu hi yn cyfarwyddo'r swyddog ymchwilio i gyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth o'r drosedd yn yr orsaf heddlu.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd rhywun dan amheuaeth wedi cael ei arestio gan yr heddlu a bod difrifoldeb y drosedd yn dangos y

dylid ei gadw yn y ddalfa, ond nad oes digon o dystiolaeth i fodloni'r prawf tystiolaethol ar yr adeg honno i'r Cyngor. Mewn achosion o'r fath byddwn ni'n defnyddio'r prawf trothwy os

- oes sail resymol dros fod o'r farn y bydd tystiolaeth bellach ar gael o fewn cyfnod rhesymol;
- yw difrifoldeb neu amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad ar unwaith ar gyhuddo;
- oes seiliau sylweddol parhaus i wrthwynebu mechnïaeth ac mae'n briodol gwneud hynny yn holl amgylchiadau'r achos.

O dan ran gyntaf y prawf trothwy, rhaid i ni fod yn fodlon bod o leiaf amheuaeth resymol bod y person sydd i'w gyhuddo wedi cyflawni'r drosedd. Os yw'r rhan amheus resymol wedi'i bodloni, byddwn ni'n ystyried ail ran y prawf. O dan hyn, rhaid i ni fod yn fodlon bod sail resymol dros fod o'r farn y bydd yr ymchwiliad parhaus yn darparu tystiolaeth bellach, o fewn cyfnod rhesymol o amser, fel bod yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd yn gallu sefydlu gobaith realistig o euogfarn. I wneud hyn byddwn ni'n ystyried natur, graddau a derbynioldeb tystiolaeth o'r fath, y cyhuddiadau y bydd yn eu cefnogi, y rheswm pam nad yw'r dystiolaeth ar gael yn barod, yr amser sydd ei angen i gael y dystiolaeth bellach ac a yw unrhyw oedi canlyniadol yn rhesymol ym mhob un o'r amgylchiadau.

Os yw'r uwch swyddog yn fodlon bod y prawf trothwy uchod wedi'i fodloni, yna bydd ef neu hi yn cyfarwyddo'r swyddog ymchwilio perthnasol i gyhuddo'r sawl dan amheuaeth o'r drosedd/troseddau yn yr orsaf heddlu. Byddwn ni'n cadw golwg ar y penderfyniad i gyhuddo a chyn gynted â phosibl, byddwn ni'n cymhwyso'r profion tystiolaethol llawn a budd y cyhoedd i'r achos.

Gweithio mewn Partneriaeth gydag Asiantaethau Gorfodi eraill

Ar gyfer rhai meysydd o'n gwasanaethau, mae swyddogaeth orfodi gyfrannol neu gyflenwol gyda ni gydag asiantaethau eraill. Weithiau bydd hi'n fwy priodol i asiantaethau gorfodi eraill neu awdurdodau lleol eraill ddelio ag achosion penodol o dorri deddfwriaeth, fel y gall swyddogion drosglwyddo manylion y drosedd i bartïon eraill o'r fath. Wrth gyflawni'r dyletswyddau cyfrannol yma, byddwn ni'n parhau i gydymffurfio â'n Polisi Gorfodi, ond bydd yr asiantaethau eraill yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau gorfodi sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw.

Os yw troseddwr yn cyflawni troseddau mewn nifer o ardaloedd Awdurdod Lleol, gall fod yn fwy priodol i un Cyngor erlyn am yr holl droseddau, gan gynnwys rhai a ddigwyddodd y tu allan i'w ardal. Dan amgylchiadau o'r fath, gallwn ni wneud cytundebau cyfreithiol gyda Chynghorau eraill er mwyn i un awdurdod gymryd y rhan arweiniol, gan ddefnyddio darpariaethau o dan Adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw bwerau galluogi eraill.

Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid gan gynnwys yr Heddlu, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig / Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol eraill ac

asiantaethau gorfodi eraill. Byddwn ni'n cyfnewid gwybodaeth am weithgareddau gorfodi gyda'n sefydliadau partner a byddwn ni'n gwneud hynny yn unol ag unrhyw ddulliau sefydledig o rannu gwybodaeth a gofynion cyfreithiol, gan gynnwys darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ac unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth, codau ymarfer neu femoranda dealltwriaeth sy'n bodoli.

Adolygu

Mae'r Cyngor yn croesawu adborth ar y polisi yma, yn enwedig gan bartïon yr effeithir arnyn nhw, fel bydd modd iddo ystyried effaith ei bolisiâu ar unigolion a busnesau. Rydyn ni'n ymdrechu i fonitro cydymffurfiaeth ein swyddogion â'r polisi yma. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd a byddwn ni'n ystyried cynnwys gwelliannau awgrymedig lle bynnag y bo modd.

Bydd diwygiadau sydd wedi'u hawgrymu i'r polisi yma'n cael eu hystyried a'u cynnig gan uwch swyddogion perthnasol y Cyngor. Yna bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r newidiadau.

Casgliad

Mae'r polisi gorfodi yma'n cefnogi cyflwyno Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf, a gafodd ei ddatblygu gyda'n cymunedau ac er budd ein cymunedau. Mae'n nodi ein dull o annog cydymffurfiaeth, yn ogystal â chymau a fydd yn cael eu cymryd pan fo angen a phan fydd hyn yn briodol, i amddiffyn pobl leol fwy agored i niwed a buddiannau ehangach ein cymunedau.

Bydd y polisi gorfodi yma'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau/ddatblygu yn rheolaidd, fel sy'n ofynnol gan newidiadau mewn deddfwriaeth neu ganllawiau. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â phartïon eraill â buddiant, cyrff perthnasol a rhanddeiliaid yn y broses orfodi, ac ystyried eu barn, lle bo hynny'n briodol. Gall ymgynghoriadau gael eu cynnal trwy ddatblygu partneriaethau gydag asiantaethau neu sefydliadau eraill.

Mae'r polisi yma wedi'i gynllunio i ddarparu'r gwasanaeth gorfodi gorau posibl ar gyfer trigolion a chymuned fusnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n cynnwys egwyddorion gorfodi da sydd wedi'u pennu gan Concordat Gorfodi'r Llywodraeth, y Cod Rheoleiddwyr ac mae'n adlewyrchu hawliau'r unigolyn sydd wedi'u gwarchod gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth gysylltiedig. Ein nod yw darparu gwasanaeth sy'n effeithlon, yn gyson, yn deg ac yn dryloyw.

ATODIAD 1 - CYFARWYDDIADUR GORFODI 2018

Gwasanaeth	Natur y Gweithrediad Gorfodi
Materion Tai Adran Gorfodi	• Gadael gwastraff • Waliau terfyn • Systemau draenio • Gwybodaeth amgylcheddol • Perthi uchel • Gadael gwastraff wedi'i reoli yn anghyfreithlon, dyletswydd gofal, rheoli gwastraff • Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth • Sŵn o gerbydau, peiriannau ac offer • Deunydd niweidiol • Rheoli plâu • Pŵer gwerthu eiddo yn orfodol • Tai'r sector preifat • Rheoleiddio safleoedd carafannau • Ceisiadau Gwybodaeth • Adeiladau adfeiliedig • Atafaelu a fforffedu offer sŵn • Niwsans statudol (sŵn, anifeiliaid, adeiladau, llwch, mygdarth, arogl ac ati)

Materion Bwyd ac Iechyd a Diogelwch	• Ymchwilio i ddamweiniau • Archwiliadau hylendid bwyd • Samplu hylendid bwyd • Archwiliadau iechyd a diogelwch (eiddo masnachol) • Ymchwilio i glefydau heintus a'u rheoli • Diogelwch meysydd chwarae • Rheoli ysmegu
Trwyddedu	• Trwyddedu alcohol • Trwyddedau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid (siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth) • Trwyddedu gamblo • Trwyddedu amrywiol (elusennau, metel sgrap) • Trwyddedu petrolewm a ffrwydron • Trwyddedu adloniant cyhoeddus • Rheoli ysmegu • Trwyddedu tacsis
Safonau Masnach	• Gwerthu cynhyrchion sydd â chyfyngiad oedran • Rheoli clefydau anifeiliaid • Adnabod anifeiliaid • Ymddygiad gwrthgymdeithasol • Credyd defnyddwyr • Ffugio • Trosedd ar garreg y drws • Masnachu teg • Labelu bwydydd a'u cynhwysion • Trwyddedu symudiadau anifeiliaid • Nwyddau a gwasanaethau y mae eu disgrifiadau'n anghywir • Amddiffyn iechyd a lles anifeiliaid • Diogelwch nwyddau defnyddwyr • Bwyd gwastraff • Pwysau a mesurau
Rheoli Llygredd	• Cymeradwyo ffwrneisi • Tir halogedig • Rheoli oriau gweithredu ar safleoedd adeiladu

	• Dyletswydd gofal • Gadael gwastraff rheoledig yn anghyfreithlon • Ymgynghoriadau trwyddedu • Sŵn o gerbydau, peiriannau ac offer • Ymgynghoriadau cynllunio • Cyfleusterau rheoledig • Ceisiadau gwybodaeth • Adeiladau adfeiliedig, systemau draenio • Atafaelu a fforffedu offer sŵn • Cwynion ynglŷn â mwg • Niwsans statudol (sŵn, anifeiliaid, adeiladau, mygdarth llwch, arogleuon ac ati) • Rheoli gwastraff
Gorfodi Gofal y Strydoedd	• Cerbydau wedi'u gadael • Rheoli anifeiliaid • Baeddu cŵn • Gwastraff domestig • Codi posterï anghyfreithlon • Tipio anghyfreithlon • Graffiti • Gadael sbwriel • Cŵn swnllyd • Cŵn ac anifeiliaid crwydr • Gwastraff byd masnach
Cynnal y Priffyrdd	• Sgipiau adeiladwyr wedi'u gosod ar briffordd heb drwydded • Canopïau a strwythurau dros y briffordd • Gorchuddion a gridiau - mynediad i seleri • Difrod i eiddo'r Fwrdeistref Sirol • Coed peryglus sy'n effeithio ar y briffordd - ar dir â pherchnogaeth anhysbys • Gadael deunyddiau adeiladu ar briffordd heb drwydded • Codi sgaffaldiau ar y briffordd heb drwydded • Traffig anghyffredin • Rhwystr cyffredinol ar briffordd - arwyddion / nwyddau'n cael eu harddangos / stondin hysbysebu, trelars / cerbydau / carafannau, peiriannau/siediau contractwyr • Symud pethau sydd wedi'u gadael ar y briffordd gan achosi perygl e.e. mwd, olew ac ati • Coed/gwrychoedd sy'n hongian dros y briffordd gan achosi rhwystr

	• Dŵr yn cwmpo/lifo ar y briffordd
Priffyrdd Gwaith stryd	• Cerbydau'n croesi troedffyrdd yn anghyfreithlon - (dim ond pan fydd gwaith troedffyrdd newydd wedi'i gynllunio) • Ad-dalu costau glanhau'r ffordd ar ôl damweiniau traffig • Archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i safon yr awdurdod priffyrdd
Strwythurau Priffyrdd	• Adeilad neu strwythur peryglus • Mesurau mewn achos o argyfwng sy'n ymwneud ag adeiladu neu strwythurau peryglus • Tir peryglus cyfagos i stryd • Pwerau mynediad i awdurdod priffyrdd at ddibenion marcio strwythurau a gweithfeydd penodol ac ati. • Pwerau sy'n ymwneud â waliau cynnal ger strydoedd • Darpariaethau atodol ynglŷn â phwerau mynediad at ddibenion arolygu
Gwasanaeth Adfer Tir a Pheirianeg	• Draenio tir • Mwyngloddiau a chwareli
Parciau a Chefn Gwlad	• Cŵn yn baeddu mewn parciau • Gorfodi is-ddeddfau parciau • Cynnal a chadw rhandiroedd • Rhwystro hawliau tramwy cyhoeddus • Gorchmynion Cadw Coed • Defnydd anawdurdodedig o hawliau tramwy cyhoeddus
Rheoli Adeiladu	• Adeiladau/strwythurau peryglus
Gorfodi Rheolau Parcio Sifil	• Gorfodi rheolau meysydd parcio oddi ar y stryd a Gorchmynion Rheoli Traffig ar y stryd a reolir gan y Cyngor
Adran Gorfodi	• Rheoleiddio achosion o dorri Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Glanhau	• Tipio anghyfreithlon (gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon) • Trosedd o adael sbwriel

Gweithrediad Gorfodi: Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant		
Gofal yn y Gymuned		
Gwasanaeth	Natur y Gweithrediad Gorfodi	
Gofal yn y Gymuned	• Asesiadau Iechyd Meddwl • Diogelu eiddo • Oedolion sy'n agored i niwed	
Tai Cymunedol	• Y digartref • Canolfan Cyngor ar Faterion Tai • Amddiffyn rhag troi allan / aflonyddu	
Gwasanaethau i Blant	• Achosion gofal • Gorchmynion goruchwyllo • Gorchmynion gofal • Gorchmynion llety diogel • Gorchmynion awdurdodaeth gynhenid • Gorchmynion asesu plant • Gorchmynion amddiffyn brys • Caniatâd i wrthod cyswllt	
Gwasanaeth y Llyfrgelloedd	• Gwaharddiad o lyfrgell oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol • Atal hawliau benthyca am beidio â dychwelyd deunyddiau llyfrgell neu beidio â thalu dirwyon	

Gweithrediad Gorfodi: Cyfadran Addysg a Chynhwysiant		
Cynllunio a Rheoli Cyflawniad a Gwasanaethau i Blant		
Gwasanaeth	Natur y Gweithrediad Gorfodi	
Cynllunio a Rheoli Cyflawniad	• Erlyn tresbaswyr	
Addysg	• Erlyn rhieni plant sydd ddim yn mynychu ysgol • Trwyddedu plant i weithio neu berfformio	

Gweithrediad Gorfodi: Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen		
Uwchadran Materion Cyllid		
Gwasanaeth	Natur y Gweithrediad Gorfodi	
Treth y Cyngor	Ceisiadau am orchmynion atebolrwydd yn y llys ynadon: - Dyma'r cywiriadau gorfodi sy'n dilyn:- • Atal enillion / buddion / lwfansau Aelodau • Gorchymyn talu • Traddodi • Rheoli nwyddau • Methdaliad • Cais am wybodaeth ariannol	
Trethi Busnes	Ceisiadau am orchmynion atebolrwydd yn y llys ynadon: - Dyma'r cywiriadau gorfodi sy'n dilyn:- • Traddodi • Rheoli nwyddau • Methdaliad / dirwyn i ben	
Gorfodi talu Môn Ddyledion sydd heb eu talu	Gweithredu ar gael drwy'r llys sirol yn unig - • Atal enillion • Gwarantau traddodi • Gwarantau atafaeliad	
Casglu gordaliadau Budd-dal Tai	• Atal enillion • Atal budd-dal y wladwriaeth • Gorchymyn talu • Gorchmynion Atal Enillion Uniongyrchol	
Ymchwilio i hawliadau twyllodrus am fudd-daliadau tai a threth y Cyngor	• Gosod sancsiynau fel sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth Nawdd Cymdeithasol gan gynnwys rhybudd ffurfiol, cosb weinyddol ac erlyniad troseddol. Mae sancsiynau'n cael eu cymhwyso yn unol â'r Polisi Erlyn a Sancsiynau Cyllid Gweithrediadol	

Ymchwilio i ddyfarniadau, gostyngiadau (gan gynnwys gostyngiad treth y Cyngor) a grantiau	• Ar y cyd, ymgynghori ag Archwilio Mewnol - bydd unrhyw geisiadau twyllodrus sydd wedi'u gwneud o fewn y Cyngor ar gyfer dyfarniadau, gostyngiadau, grantiau, eithriadau ac ati, yn cael eu hymchwilio a bydd hynny'n arwain at ad-dalu, erlyn, cosb sifil neu rybudd syml	
Eiddo Cymunedol, Cyllid a TG		
Gwasanaeth	Natur y Gweithrediad Gorfodi	
Amodau Tenantiaeth	• Niwsans cymdogion / ymddygiad gwrthgymdeithasol • Ad-daliadau am ddifrod i eiddo/tir sydd ddim oherwydd traul deg • Ôl-ddyledion rhent ac ôl-ddyledion cyn-denantiaid	
Rheoli Eiddo	• Cerbydau wedi'u gadael • Meddiant Anffafriol • Torri telerau prydles • Tresbasu • Tipio anghyfreithlon • Parcio ar leiniau • Adfeddiannu siop • Ôl-ddyledion rhent • Tresbasu • Gerddi blêr	